



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiad o Wasanaethau *Plant*

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr

Mehefin 2017

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad a Chamau Nesaf	3
Trosolwg o'r Canfyddiadau	4
Argymhellion	7
Trefniadau Mynediad	9
Diogelu ac Asesiadau	19
Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant	27
Atodiad 1: Methodoleg	37

Cyflwyniad a Chamau Nesaf

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ionawr/Chwefror 2017. Edrychodd arolygwyr yn fanwl ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant ag angen cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu amddiffyniad. Gwnaethom ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd arferion, penderfyniadau a gwaith amlasiantaeth mewn perthynas â threfniadau diogelu, mynediad ac asesiad yr awdurdod; gan gynnwys trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, a gwasanaethau ataliol. Yn ogystal, gwnaeth arolygwyr werthuso'r hyn a wyddai'r awdurdod lleol am ei berfformiad ei hun, a'r gwahaniaeth yr oedd yn ei gael ar y bobl yr oedd yn ceisio rhoi cymorth, gofal a chymorth iddynt a/neu eu hamddiffyn.

Roedd yr arolygiad wedi'i strwythuro o amgylch llwybr pobl i mewn i wasanaethau gofal a chymorth, yn arbennig mynediad at wasanaethau ataliol a statudol a'r rhyngweithio rhwng y ddau, yn ogystal ag unrhyw broblemau diogelu a oedd yn codi. Gwnaethom ystyried yn ofalus y cyfraniadau a wnaed gan wasanaethau cymdeithasol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gyflawni canlyniadau da ar gyfer plant a theuluoedd a, lle'r oedd yn berthnasol, i ddiogelu plant rhag niwed. Darllenodd arolygwyr ffeiliau achos, a gwnaethant gyfsweld â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Cynhaliwyd arolwg staff electronig ar draws y gwasanaethau plant. Lle'r oedd modd, siaradodd arolygwyr â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y cyngor yn wynebu cyfnod o newid sylweddol, gan gynnwys y gofyn i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI). Roedd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gyrru'n weithredol agenda trawsffurfiol o wasanaethau yn ei blaen ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth orfod sicrhau arbedion ariannol tymor canolog.

Roedd yr arolygwyr yn falch o nodi bod yr uwch-reolwyr yn ymroddedig i gyflawni gwelliannau o ran darparu cymorth ac amddiffyniad ar gyfer plant a theuluoedd.

Mae'r argymhellion a wnaed ar dudalen 8 yr adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol lle dylai gwaith datblygu ar ôl yr arolygiad ganolbwyntio.

Eu nod yw cynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Carai'r tîm arolygu ddiolch i ddefnyddwyr gwasanaeth Pen-y-bont ar Ogwr, aelodau etholedig, staff ac asiantaethau partner a gyfrannodd at yr adroddiad hwn.

Y Camau Nesaf

Mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr lunio cynllun gwella mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwn, a fydd yn cael ei fonitro fel rhan o raglen ymgysylltu AGGCC.

Trosolwg o'r Canfyddiadau

Trefniadau Mynediad

Canfu arolygwyr fod yr awdurdod wedi gweithio'n galed yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i ail-lunio'i wasanaethau. Cyflenwyd swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) yr awdurdod trwy'r tîm asesu a wnaeth ddarparu pwynt cyswllt unigol ar gyfer gwaith cymdeithasol ac ymyrraeth ataliol (Cymorth Cynnar).

Roedd trefniadau mynediad at Gymorth Cynnar a gwasanaethau statudol yn barchus tuag at hawliau ac unigoliaeth pobl, ac roeddent ar gael yn ddwyieithog ond roedd diffyg gwybodaeth hygyrch o ansawdd ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd cydleoli staff o wasanaethau cymdeithasol, Cymorth Cynnar ac asiantaethau partner yn y tîm asesu yn cefnogi plant a theuluoedd i gael eu cyfeirio'n haws at wasanaethau priodol, ond nid oedd wedi aeddfedu eto i mewn i wasanaethau integredig. Bydd trefniadau amlasiantaeth y tîm asesu yn cael eu hystyngwys trwy ddatblygu Canolfan Diogelu Amlasiantaeth o fis Ebrill 2017. Tanategwyd y trefniadau mynediad cyfredol, gan gynnwys y rhyngweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a Chymorth Cynnar, gan ddogfen meini prawf trothwyon, ond nid oedd asiantaethau partner yn deall hon yn ddigonol eto. Roedd penderfyniadau sgrinio yn amserol, a gwelodd arolygwyr rywffaint o dystiolaeth gadarnhaol o oruchwyliaeth gan reolwyr. Pan dderbyniwyd cyfathrebiadau gan wasanaethau plant ac roedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, cymerwyd camau cychwynnol di-oed a chymesur i amddiffyn plant. Roedd ansawdd penderfyniadau trothwyon yn anghyson, fodd bynnag, ac roedd diffyg dystiolaeth yn eu cylch. Cydnabu'r gwasanaeth fod y newidiadau a gyflwynwyd i weithredoli GCC wedi cyflwyno disgwyliadau ychwanegol a wnaeth roi pwysau ar gapasiti'r rheolwyr ac ar lwyth gwaith y tîm asesu. Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau partner bob amser o ansawdd digonol i gefnogi'r tîm asesu yn eu penderfyniad sgrinio, a dangosodd rhai atgyfeirwyr proffesiynol ddiffyg dealltwriaeth o ofynion y gwasanaeth. Roedd angen mwy o waith i ddatblygu systemau sicrhau ansawdd amlasiantaeth i gefnogi'r staff i arfer dyfarniadau priodol a chymesur ac i ddarparu sicrwydd bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y newid cyfagos i Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth yn darparu cyfle amserol i adnewyddu disgwyliadau ar gyfer y gwasanaeth a oedd yn deillio o'r DGCLI, gan gynnwys dysgu o arferion. Bydd angen i'r awdurdod ymestyn ei wybodaeth perfformiad hefyd i gynnwys dadansoddiad o'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar leihau angen a risg.

Diogelu ac Asesiadau

Roedd y tîm asesu'n gweithio'n galed i roi gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Roedd trafodaethau am strategaeth yn amserol ac yn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth yn briodol ag asiantaethau allweddol.

Roedd ansawdd yr asesiadau a'r cofnodion a welwyd yn amrywiol; roedd rhai'n dda ond nid oedd rhai eraill yn dangos tystiolaeth ddigonol o'r egwyddor gyd-gynhyrchu neu ddadansoddiad o angen a risg o'r cychwyn. Nid oedd prydlondeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau bob amser yn amlwg ac roeddent yn dal i ddibynnu'n ormodol ar berthnasau proffesiynol unigol.

Nid oedd arferion gwaith cymdeithasol da i ganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys yr asesiadau. Er bod y rhan fwyaf o asesiadau yn cael eu rhannu â phlant a theuluoedd, roedd diffyg ymgysylltiad effeithiol yn golygu nad oeddent bob amser yn ddigon eglur ynghylch diben yr help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yr oeddent yn eu derbyn. Nid oedd y cynlluniau canlyniadol bob amser yn adlewyrchu canfyddiadau'r asesiadau, ac nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn cael eu gyrru ddigon gan ganlyniadau. Mewn rhai achosion, gwnaeth ansawdd y cynllun rwystro'r rhai hynny a oedd yn cymryd achos rhag deall yr anghenion a'r risgiau cysylltiedig â phlant a theuluoedd yn gyflym. Mae angen rhannu asesiadau a chynlluniau canlyniadol yn well â phlant a theuluoedd mewn modd sy'n hyrwyddo eu dealltwriaeth o'r materion ac ymgysylltiad.

Gwelwyd bod rheolwyr yn goruchwyllo asesiadau a chynlluniau ond nid oeddent yn darparu'r lefel angenrheidiol o her a sicrwydd ansawdd yn gyson.

Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant

Roedd yr awdurdod yn gweithio'n galed i drawsffurfio gwasanaethau cymdeithasol plant ar adeg pan oedd yn rhaid iddo gyflenwi arbedion ariannol tymor canolig. Roedd uchelgais cynlluniau'r awdurdod yn dangos ei ymrwymiad i wella ymyrraeth gynnar a gwasanaethau statudol ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd y nod o liniaru'r angen am wasanaethau cymdeithasol statudol, fodd bynnag, yn sylweddol ddibynnol ar allu holl gyfarwyddiaethau'r cyngor i weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflenwi yn erbyn gweledigaeth y cyngor a chyfrannu tuag at a chydlynu amrediad effeithiol o wasanaethau. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod dadansoddiad parhaus o'r cymhlethdodau sylfaenol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant statudol. Cadarnhaol oedd nodi bod y cyngor wedi dechrau gweithio'n ddiweddar i ddatblygu cynllun comisiynu mwy cynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn allweddol i'r gwaith o gyflenwi ei strategaeth cymorth cynnar a sefydlogrwydd.

Mae angen i'r cyngor sicrhau bod y cyfeiriad strategol yn cael ei drosi i strategaeth weithredol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau plant sy'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol a'i deall gan y staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwaith o ymgorffori'r DGCLI yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar ac roedd angen mwy o gyfleoedd i ddysgu gwersi gan arferion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o adolygu cynnydd ac unrhyw waith canlyniadol ar gyfer

aifodelu'r gwasanaeth. Mae angen ymgorffori lleisiau'r plant a theuluoedd hefyd wrth lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i ddarparu dealltwriaeth well o'r gwahaniaeth y mae help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn eu cael ar blant a theuluoedd. Bydd cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd newydd yn helpu'r cyngor i ddeall cyflymder ei waith gwella gwasanaeth.

Roedd y staff wedi ymroi i gyflawni canlyniadau da ar gyfer plant a theuluoedd, ond roedd morâl y staff yn amrywiol ar draws y gwasanaeth, ac roedd angen ei feithrin ar adeg o newid sylweddol. Rhoddwyd cryn flaenoriaeth i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd da, roedd yr awdurdod wedi wynebu anawsterau wrth recriwtio staff profiadol. Nid oedd gwasanaethau, felly, yn cael eu cyflenwi bob amser gan weithlu digon cymwys a phrofiadol a oedd â'r capasiti i ddiwallu gofynion llwyth gwaith yn gyson. Roedd y staff yn gwerthfawrogi agosatrwydd eu rheolwyr llinell a chefnogaeth cymheiriaid oddi wrth aelodau'r tîm, yn arbennig mewn perthynas â rheoli'r cynnydd o ran maint a chymhlethdod eu gwaith. Byddai'r staff yn croesawu gweld uwch-reolwyr yn fwy, yn arbennig o ystyried y gwaith o aifodelu gwasanaethau.

Cydnabuwyd pwysigrwydd datblygiad staff ac arferion goruchwylio da ar gyfer cadw staff, ac roedd gweithwyr newydd eu cymhwyso i'w gweld yn cael eu cefnogi'n dda yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ymarfer ac yn mawrbrizio'r mentora a ddarparwyd ar eu cyfer. Er gwaethaf argaeledd rhywfaint o raglenni hyfforddi da, roedd angen help ar staff, gan gynnwys rheolwyr, i flaenoriaethu hyfforddiant yn erbyn gofynion cystadleuol eu gwaith. Canfuwyd bod ansawdd goruchwyliaeth yn amrywiol iawn ac nid oedd yn dangos, fel rheol, ddigon o her neu fyfyrdod; nid oedd polisi goruchwylio newydd wedi cael effaith ar y problemau ansawdd hyn eto. Roedd uwch-reolwyr wrthi'n gweithio i ddatblygu goruchwyliaeth gryfach o arfer a diwylliant rheoli. Roedd datblygu arweinyddiaeth rheolwyr grŵp a rheolwyr llinell y rheng flaen, felly, yn cael ei symud ymlaen fel mater o flaenoriaeth.

Argymhellion

Mynediad

1. Dylid llunio arlwy o wybodaeth sy'n hawdd ei darllen a sicrhau ei bod yn hygyrch i deuluoedd, plant a phobl ifanc, gan gyfeirio nid yn unig at wasanaethau ataliol, ond hefyd at sut mae gwasanaethau plant a chymorth cynnar yn cyflawni eu gwaith.
2. Dylid sefydlu hyfforddiant amlasiantaeth effeithiol a threfniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall trothwyon a disgwyliadau atgyfeirio gwasanaethau cymorth cynnar a gwasanaethau plant a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson;
3. Dylai'r cyngor barhau i ddatblygu systemau gwybodaeth sy'n cynnwys craffu ar y galw am wasanaeth, a chefnogi dadansoddiad o'r gwahaniaeth y mae cymorth cynnar, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn eu cael ar blant a theuluoedd.
4. Dylai llwythi achos ac adroddiadau sicrhau ansawdd gael eu monitro'n barhaus i sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd.
5. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion a'r defnydd o gronolegau a genogramau.
6. Dylid rhoi trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu pe derbynnir cysylltiadau ac atgyfeiriadau mynych ynghylch eu llesiant.
7. Dylai'r cyngor adolygu ei drefniadau tîm dyletswydd argyfwng (TDA) i sicrhau bod atgyfeiriadau TDA yn cael eu cofnodi'n effeithiol ar y system electronig a bod cyfathrebiadau â'r gwasanaeth yn ystod y dydd yn cefnogi'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth a chymryd camau'n brydlon.

Diogelu ac Asesiadau

8. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, ac yn canolbwyntio'n glir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd. Dylai'r canlyniadau, amserlenni a'r atebolrwydd a ddymunir ar gyfer camau gweithredu fod yn glir.
9. Dylid datblygu model asesu a rheoli risgiau ar gyfer y gwasanaeth a'i rannu â staff ac asiantaethau partner hefyd. Dylai rhaglen hyfforddi a mecanweithiau sicrwydd fod ynghlwm wrth y model hwn i sicrhau cydymffurfiad, ansawdd ac effaith.
10. Dylid sefydlu disgwyliadau mewn perthynas ag amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau gan bartneriaid at asesiadau a chynlluniau gofal. Dylid gweithredu mecanwaith sicrwydd i sicrhau cydymffurfiad ac ansawdd.

11. Dylid sefydlu goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr a systemau herio ar adeg trosglwyddo achos rhwng timau i sicrhau dealltwriaeth eglur o'r anghenion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r achos.

Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant

12. Dylai'r cyngor werthuso'n weithredol effeithiolrwydd ei waith rhyng-gyfarwyddiaeth wrth gefnogi Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflenwi yn erbyn disgwyliadau statudol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn arbennig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

13. Dylai'r cyngor yrru ei ymrwymiad yn ei flaen i ddatblygu cynllun comisiynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â gwasanaethau statudol ac ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a theuluoedd.

14. Dylai'r cyngor ystyried sut y gall gynyddu lleisiau plant a theuluoedd wrth lunio cynlluniau gwasanaeth i ddarparu dealltwriaeth well o'r gwahaniaeth y mae help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn eu cael ar blant a theuluoedd.

15. Dylai'r cyngor ystyried sut y gall ddarparu cyfleoedd i staff a phartneriaid fod yn rhan bellach o'r broses o ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau; dylai'r gwersi a ddysgwyd yn sgil gweithredu GCC gael eu defnyddio i lywio'r trawsnewidiad arfaethedig i Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth.

16. Dylid datblygu a gweithredu'r fframwaith sicrhau ansawdd fel mater o flaenoriaeth.

17. Dylai strategaeth y gweithlu barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y nifer fwyaf o staff yn aros yn eu swyddi a chymorth i hyrwyddo'r gwaith o recriwtio staff profiadol yn amserol.

18. Mae'n rhaid i'r staff allu cwblhau'r hyfforddiant a nodwyd i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

19. Dylai uwch-reolwyr gymryd camau i wella amllder, cysondeb ac ansawdd goruchwyliaeth staff y rheng flaen; dylid gweithredu mecanwaith sicrwydd i sicrhau cydymffurfiaid ac ansawdd.

20. Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr grŵp, rheolwyr tîm/dirprwy reolwyr ac uwch-ymarferwyr barhau i gael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith o ailfodelu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gallu darparu goruchwyliaeth effeithiol a chyson ar gyfer staff ledled y gwasanaeth gan reolwyr ynghylch penderfyniadau, heriau ac arweiniad; dylid sicrhau bod mynediad at raglen arweinyddiaeth a datblygiad yn cael ei yrru yn ei flaen er mwyn i reolwyr fagu gwydnwch.

Trefniadau Mynediad

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae gan bob unigolyn fynediad at wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a chael cyngor a chefnogaeth fuan, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth. Mae gwasanaethau ataliol yn hygyrch ac yn effeithiol o ran oedi neu rwystro'r angen am ofal a chymorth. Mae partneriaid a'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn deall trefniadau mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r rhain yn gweithredu'n effeithiol.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Roedd yr awdurdod wedi gweithio'n galed i ail-lunio ei wasanaethau ac roedd wedi datblygu tîm asesu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer gwaith cymdeithasol ac ymyrraeth ataliol (Cymorth Cynnar).
- Roedd cydleoli staff o wasanaethau cymdeithasol, cymorth cynnar ac asiantaethau partner yn y tîm asesu yn cefnogi plant a theluedd i gael eu cyfeirio'n haws at wasanaethau priodol.
- Roedd trefniadau mynediad at Gymorth Cynnar a gwasanaethau statudol yn barchus tuag at hawliau ac unigoliaeth pobl, ac roeddent ar gael yn ddwyieithog.
- Er gwaethaf perfformiad cadarnhaol yn y nifer o Fframweithiau Asesu'r Teulu ar y Cyd (FFATC) a gwblhawyd, mae angen i bartneriaid gael eu hannog i ddeall yr argraff y gallent ei chael trwy ymgymryd â rôl gweithiwr proffesiynol arweiniol.
- Tanategwyd y rhyngwynebu rhwng trothwyon gwasanaethau cymdeithasol a Chymorth Cynnar gan ddogfen meini prawf trothwyon, ond nid oedd asiantaethau partner yn deall hon yn ddigon da.
- Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau partner bob amser o ansawdd digonol i gefnogi'r tîm asesu i wneud penderfyniad sgrinio diogel.
- Roedd diffyg gwybodaeth hygyrch o ansawdd i blant, pobl ifanc a'u theluedd.
- Roedd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chasglu ond roedd angen iddi gynnwys dadansoddiad gwell o argraff gwasanaeth, yn arbennig mewn perthynas ag atgyfeiriadau mynych.
- Roedd penderfyniadau sgrinio'n anghyson, ac roedd angen i reolwyr a phartneriaid ymgysylltu'n fwy â'r gwaith o sicrhau ansawdd penderfyniadau trothwyon mynediad.
- Pan dderbyniwyd cyfathrebiadau gan wasanaethau plant ac roedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, cymerwyd camau cychwynnol di-oed a chymesur i amddiffyn plant.
- Roedd angen mwy o waith amlasiantaeth mewn perthynas â disgwyliadau gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) i gefnogi staff i arfer dyfarniadau priodol a chymesur.

Esboniad o'r Canfyddiadau

Cyd-destun

1.1. Ar adeg yr arolygiad, roedd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrthi'n gyrru gwaith yn ei flaen i drawsnewid gwasanaethau i blant yng nghyd-destun gweledigaeth gorfforaethol ehangach 'Un Cyngor'. Roedd y broses newid sylweddol hon yn adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol yr awdurdod a'r gofynion ariannol tymor canolig, cynllun busnes y Gyfarwyddiaeth a disgwyliadau a nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn modd diogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor (387 o blant ar 31 Rhagfyr 2016). Roedd y cyngor wedi ailgyfeirio ei ganolbwynt, gan newid ei strategaeth lleoli a sefydlogrwydd o fewn Strategaeth Cymorth Cynnar a Sefydlogrwydd y bwriadwyd iddi datblygu "system gyfan" a dull amlasiantaeth, i gefnogi plant sy'n derbyn gofal wrth helpu teuluoedd i aros ynghyd.

1.2 Roedd gwasanaethau cymdeithasol plant, y'u dynodwyd fel "gofal cymdeithasol" plant, wedi cael eu hadleoli o'r Gyfarwyddiaeth Plant flaenorol – bellach y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i'r Teulu – ac ymunodd â gofal cymdeithasol oedolion dan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ym mis Ionawr 2015. Arhosodd gwasanaethau ymyrraeth gynnar a chefnogaeth yr awdurdod yng Nghyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i'r Teulu. Roedd y berthynas rhwng y Gyfarwyddiaethau wedi elwa ar eu cysylltiadau agos yn y gorffennol, a bwriad y trefniadau newydd hyn oedd tanategu'r flaenoriaeth gorfforaethol sef, 'helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol'. Mae lleoliad cyfrifoldebau cymorth cynnar y tu allan i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn golygu, fodd bynnag, bod unrhyw leihad o ran bod ag angen gwasanaethau cymdeithasol statudol yn sylweddol ddibynnol ar allu'r Gyfarwyddiaethau i gydweithio er mwyn cydlynu a chyflenwi amrediad effeithiol o wasanaethau.

1.3. Roedd rheolwyr ledled y ddwy Gyfarwyddiaeth, dan arweiniad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, wedi datblygu dogfen 'Gwireddu'r Weledigaeth' yn ddiweddar (haf 2016) a oedd yn nodi pedair blaenoriaeth newid allweddol: Plant ag Anabledau, Gwasanaethau Preswyl, Cymorth Cynnar a Sefydlogrwydd, a datblygu Canolfan Diogelu Amlasiantaeth. Mae'r cynlluniau prosiect canlyniadol a rennir bellach yn cael eu goruchwylio gan 'Fwrdd Rhaglen Ailfodelu Gofal Cymdeithasol Plant', ac mae hyn yn cynnwys partneriaid statudol eraill.

1.4. Roedd y cyngor ar y blaen yn genedlaethol wrth weithredu'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SGGCC) electronig newydd. Gwnaeth hyn olygu bod angen i'r awdurdod greu templedi gweithredol newydd sy'n gyson â gofynion y ddeddf a'r system newydd. Aeth y trefniadau newydd 'yn fyw' wrth gyflwyno'r DGCLI ym mis Ebrill 2016. Roedd cofnodion electronig y system yn dal i fod yn newydd, a chydabuwyd eu bod yn 'waith sy'n mynd rhagddo'. Soniodd y staff mai'r hyn a ddysgwyd yn gynnar trwy arferion oedd bod cyfarwydddebau rhai templedi yn effeithio'n andwyol ar gymesuredd eu gwaith. Nod SGGCC yw galluogi gwasanaethau ieuchyd a chymdeithasol i weithio gyda'i gilydd mewn modd mwy integredig, yn genedlaethol ac yn lleol. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwaith hwn o integreiddio gwybodaeth â'r gwasanaeth ieuchyd yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar, ac roedd uchelgais y system yn dal i gael ei wireddu. Canfu arolygwyr nad oedd y

cofnod electronig ar hyn o bryd yn cefnogi goruchwyliaeth hygyrch, hawdd o ymglymiad blaenorol yr awdurdod wrth deuluoedd. Nid oedd cronolegau a genogramau wedi'u datblygu'n dda nac yn bwrpasol, ac nid oedd methodoleg gyffredin. Nid oedd y templedi wedi cefnogi'r gwaith o gasglu gwybodaeth o ansawdd oedd yn gyson dda, na dadansoddiad ohoni. Roedd angen mwy o waith a hyfforddiant yn arbennig ar gyfer y bobl hynny yr oedd disgwyl iddynt ddefnyddio'r offer, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o fwriad y templedi a sut y dylent gael eu cwblhau.

1.5. Roedd yr awdurdod yn ymwybodol o'r tyfiant o ran galw am wasanaethau cymdeithasol ond cydnabu hefyd fod angen mwyhau'r cyfle i hyrwyddo ymgysylltiad mwy amserol â theuluoedd pan na ddiwallwyd y trothwy ar gyfer gwasanaethau statudol. Roedd yr awdurdod, felly, wedi gweithio'n galed i ail-lunio ei wasanaethau ac roedd wedi datblygu tîm asesu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer gwaith cymdeithasol ac ymyrraeth cymorth cynnar fel ei gilydd. Er enghraifft, yn 2015/2016: Nid oedd 3,777 o gysylltiadau wedi symud ymlaen i fod yn atgyfeiriadau oherwydd ystyriwyd eu bod islaw'r trothwy statudol.

1.6. Er bod gwaith traws-gyfarwyddiaeth yn amlwg rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymorth cynnar, nid oedd y berthynas rhwng y tîm asesu a gwasanaethau gwybodaeth eraill y cyngor, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Chanolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid y cyngor (a adwaenir weithiau fel y ganolfan alwadau) wedi'i datblygu'n ddigonol. Dywedodd y staff fod diffyg dealltwriaeth o ran cylch gwaith y tîm asesu a'i gyfathrebiadau â threfniadau gwybodaeth a chyfeirio eraill y cyngor wedi creu tyndra posibl rhwng gwasanaethau. Yr enghraifft a grybwyllwyd amlaf gan staff ac a welodd yr arolygwyr oedd galwadau ffôn a allai fod wedi mynd at wasanaethau eraill yn cael eu camgyfeirio at y tîm asesu, gan rwystro mynediad at y system ddyletswyddau. Mae prinder staff cymorth busnes neilltuedig i ateb y ffôn wedi dwysáu'r broblem hon. Ystyriwyd bod y gwaith o drawsnewid i Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth yn fuan a phenodi rheolwr gwasanaethau cwsmeriaid newydd yn gyfle pwysig i'r cyngor egluro'r llwybrau gwasanaethau gwybodaeth hyn a hysbysebu a dosbarthu'r trefniadau'n well.

1.7. Roedd yr awdurdod wedi gyrru gwaith yn ei flaen i roi'r system Dewis Cymru ar waith (porth cenedlaethol y dinasyddion ar gyfer gwybodaeth lesiant) ond roedd hyn yn dal i fod yn y camau cynnar. Roedd gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth o'r system gwybodaeth i deuluoedd, yn dal i gael ei huwchlwytho i'r system. Unwaith iddi gael ei datblygu, y bwriad yw y bydd system Dewis yn cael ei defnyddio ledled y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a rhannau eraill o'r cyngor fel pwynt gwybodaeth canolog ar gyfer y cyhoedd. Fel gydag unrhyw system wybodaeth electronig, yr her fydd cynnal perthnasedd y wybodaeth a sicrhau mynediad hawdd ar gyfer y cyhoedd. Roedd hi'n ddefnyddiol bod cyswllt wedi'i sefydlu bellach ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SGGCC) i gefnogi staff i gael mynediad at wybodaeth berthnasol, yn arbennig gan fod rhai partneriaid wedi mynegi pryder nad oedd gan bersonél sy'n darparu gwasanaethau GCC ddigon o wybodaeth i gyfeirio'r cyhoedd yn effeithiol.

Canolfan Diogelu Amlasiantaeth

1.8. Roedd disgwyl i Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth (CDA) fynd yn fyw o fis Ebrill 2017. Canfu arolygwyr fod dull cyfredol y Cyngor o ran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) wedi cael ei yrru yn ei flaen a'i rwystro hefyd gan y gwaith a wnaed i ddatblygu'r CDA. Gwnaeth staff a oedd ynghlwm wrth y prosiect gydnabod y byddai hyn yn mynnu cyfnod pellach o newid, ond roeddent yn obeithiol y byddai CDA yn estyn cyfansoddiad amlasiantaeth cyfredol y tîm, yn gwella trefniadau rhannu gwybodaeth a rheoli atgyfeiriadau, yn arbennig y rhai cysylltiedig â cham-drin domestig. Fodd bynnag, roedd y canolbwynt ar y CDA wedi tynnu rhywfaint o sylw ac adnoddau rhag sicrhau bod y staff ac asiantaethau partner yn perchenogi'r gwaith o weithredu'r DGCLI, yn arbennig mewn perthynas â'r trefniadau mynediad cyfredol, ac yn ei ddeall yn ddigon da. Rhoddodd y newid i CDA gyfle amserol ar gyfer hyfforddiant ar y cyd pellach ynghylch gofynion y DGCLI a allai gynnwys dysgu o arferion hyd yn hyn.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

1.9. Roedd model cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer darparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) i blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol trwy gyfrwng tîm asesu ledled y sir wedi'i leoli yng Nghanolfan Ddinesig Pen-y-bont ar Ogwr neu, mewn perthynas â phlant ag anableddau, trwy dîm Plant ag Anableddau (wedi'i gyd-leoli â thîm gofal cymdeithasol i oedolion amlasiantaeth). Y tu allan i oriau gwaith, mae Tîm Dyletswydd Argyfwng ar wahân yn ymateb i atgyfeiriadau sy'n mynnu ymateb ar unwaith. Yn ogystal â darparu gwasanaeth GCC, ymgwymerodd y tîm asesu â gweithgareddau diogelu ac amddiffyn plant cychwynnol, trafodaethau strategaethau amddiffyn plant, ymholiadau adran 47, asesiadau gofal a chymorth, gwaith llys a lletya plant yn ôl yr angen, gan gynnal achosion tan iddynt gau neu gael eu trosglwyddo.

1.10. Roedd y tîm asesu'n cynnwys dau bod o staff wedi eu cyd-leoli: tîm gwaith cymdeithasol gwasanaethau statudol (rheolwr tîm, tri uwch-ymarferydd rhan amser, naw gweithiwr cymdeithasol a thri chynorthwyydd gwaith cymdeithasol heb gymwysterau), tîm cymorth cynnar, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol arbenigol eraill.

1.11. Roedd y pod cymorth cynnar yn cynnwys uwch-ymarferydd a swyddog sgrinio a oedd yn darparu swyddogaeth sgrinio ar gyfer yr holl 'geisiadau am help' newydd. Roedd aelodaeth wedi cael ei hestyn er mwyn paratoi ar gyfer y CDA i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill wedi'u cyd-leoli, er mwyn hwyluso ymyrraeth fwy prydlon a sicrhau mynediad at gyngor arbenigol; roedd y rhain yn cynnwys ymwelydd iechyd arbenigol (a ariannwyd gan iechyd a grant cymorth cynnar), gweithiwr cyffuriau ac alcohol cymunedol, a swyddogion addysgu ynghylch amddiffyn plant. Er bod gan y ddau bod swyddogaethau gwahanol ac atebolrwydd ar wahân o ran rheolaeth linell, roedd cyd-leoli'r asiantaethau wedi dechrau gwella dealltwriaeth ynghylch swyddogaethau'r naill a'r llall, ac wedi dechrau sicrhau rheolaeth fwy hyblyg o drothwyon gwasanaeth. Er bod y trefniadau ond wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2016, roedd uchelgais y cyngor, sef y byddai pobl yn cael eu cyfeirio'n haws rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac at wasanaethau cymorth cynnar, wedi dechrau cael ei wireddu. Soniodd y staff fod oddeutu deg atgyfeiriad y dydd yn cael eu hestyn yn uniongyrchol i'r ddau weithiwr cymorth cynnar yn y tîm asesu ar gyfer sgrinio, casglu

gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau cymorth cynnar a ddarperir trwy ganolfannau cymorth cynnar yr ardal.

1.12. Roedd y rhyngwynebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a chymorth cynnar wedi'i danategu gan un diwyg atgyfeirio a dogfen meini prawf trothwyon sy'n amlinellu llwybr o wasanaethau cyffredinol i wasanaethau statudol wedi'u targedu, gan gynnwys proses camu i fyny a chamu i lawr. Er bod staff gwaith cymdeithasol a chymorth cynnar ar y cyfan yn ymwybodol o'r meini prawf hyn, siomedig oedd nodi nad oedd yr atgyfeirwyr proffesiynol yn hollol ymwybodol ohonynt. Er gwaethaf hyder crybwylledig yng ngwasanaethau plant, nododd partneriaid nad oeddent yn aml yn gwybod sut oedd y tîm asesu'n cymhwyso'r trothwyon rhwng darpariaeth cymorth cynnar ac ymyrraeth statudol. Roedd angen mwy o waith i ymgysylltu'n ystyrion â staff a phartneriaid, gan gynnwys aelodau ledled y cyngor, yn y gwaith o ail-lunio gwasanaethau ac i hyrwyddo mwy o eglurder a dealltwriaeth o drothwyon gweithredol.

1.13. Nid oedd yn amlwg bod y cyngor wedi ymgynghori â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ynghylch datblygiadau'r gwasanaeth. Canfu arolygwyr nad oedd unrhyw daflenni neu ddeunydd ar gael i'r cyhoedd yn darparu gwybodaeth ar eu cyfer am yr amrediad o wasanaethau ar gael neu sut i gael mynediad atynt; nid yw'r bwlch hwn yn gyson â gofynion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Ddeddf. Mantais gysylltiedig ag ymyrraeth gynnar oedd y ffaith nad oedd gwasanaethau'n ysgwyddo'r stigma canfyddedig a gysylltir â swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gallu disgrifio sut yr oedd y cyhoedd yn deall y gwahaniaethiad yn nhrefniadau gwasanaethau'r cyngor. Roedd hi'n aneglur a oedd datblygu gwybodaeth gyhoeddedig o'r fath wedi cael ei ohirio i hwyluso'r gwaith o gyflwyno CDA neu a oedd wedi cael ei hepgor yn anffodus. Roedd hi'n arwyddocaol bod rhywfaint o staff wedi nodi y byddent yn croesawu gwybodaeth o'r fath hefyd, am nad oeddent hwythau'n eglur ynghylch trothwyon mynediad at y gwasanaeth.

1.14. Cafodd y cyfrifoldeb ar gyfer yr achosion hynny nad oeddent yn diwallu'r trothwy statudol ond a oedd yn mynnu ymyrraeth ataliol ei drosglwyddo i'r gwasanaeth cymorth cynnar ar yr adeg y gwnaed cais am gymorth cynnar. Ar ôl cael eu sgrinio, roedd yr achosion hyn naill ai'n cael eu cau neu eu chyfeirio at dimau cymorth cynnar yr ardal. Cadarnhaol oedd nodi bod y ffiniau cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar yn ddigon cynhwysol i alluogi mynediad at wasanaethau mewn perthynas â phlant a theuluoedd ag anghenion anghymwys a chymwys, a bod y trefniadau'n cefnogi camu achosion i lawr o dimau gwaith cymdeithasol statudol. Fodd bynnag, roedd diffyg systemau adborth ffurfiol mewn perthynas â'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau cymorth cynnar yn golygu bod cyfleoedd posibl yn cael eu colli i ymgysylltu'n weithredol â theuluoedd a sicrhau bod yr ymateb cywir wedi cael ei arfer. Cydnabuwyd bod angen ymyrraeth gynt ar rai teuluoedd er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol â chymorth cynnar, ac roedd yr awdurdod yn ystyried estyn y gwasanaeth cymorth cynnar yn y tîm asesu i gynnwys gweithwyr cymorth sy'n gallu ymgymryd â gwaith sy'n canolbwyntio ar dasgau ar unwaith wrth i atgyfeiriad gyrraedd.

1.15. Roedd y galw am wasanaethau cymorth cynnar wedi cynyddu ers iddynt gael eu had-drefnu. Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2016, roedd y gwasanaeth cymorth cynnar wedi derbyn cyfanswm o 2,999 o 'geisiadau am help' (atgyfeiriadau), yr oedd ysgolion a gwasanaethau addysg eraill wedi gwneud 40% ohonynt (1,193).

Gwnaeth timau gwaith cymdeithasol plant 31% (941) o geisiadau am help, yr oedd y tîm asesu wedi gwneud 32% (303) ohonynt (a gwnaed 104 ohonynt cyn cwblhau asesiad gofal a chymorth). Gwnaeth canolfannau diogelu 55% (515) o geisiadau am help; gwnaed 61 cais ffurfiol am gymorth camu i lawr. Dim ond 6% (187) o hunan-atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Er bod hyn yn dangos gwelliant mewn perfformiad, mae'n parhau i fod yn ystyfnig o isel ac yn crybwyll y cwestiwn a yw dull y cyngor tuag at gymorth cynnar er mwyn 'estyn allan' a mwyhau cyfleoedd ar gyfer nodi a lliniaru risgiau cynnar yn gwbl effeithiol; gall hyn o bosibl adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth.

Cymorth Cynnar

1.16. Roedd y gwasanaethau cymorth cynnar wedi'u trefnu o gwmpas canolfan ganolog a thair canolfan cymorth cynnar ardal. Roedd gan bob un o'r canolfannau gysylltiadau cryf â gwasanaethau a gomisiynwyd trwy grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Dechrau'n Deg. Roedd mynediad at gymorth Dechrau'n Deg yn benodol ar leoliad, gan greu rhywfaint o anghydraddoldeb o ran argaeledd.

1.17. Roedd y ganolfan ganolog yn darparu gwasanaethau arbenigol wedi'u targedu ledled y sir. Mae gan y gwasanaethau hyn rôl allweddol wrth gyflenwi'r flaenoriaeth o leihau poblogaeth plant sy'n derbyn gofal y cyngor mewn modd diogel. (Roedd gwasanaethau'n cynnwys Cysylltu Teuluoedd, cydlynwyr gwasanaeth ieuencid arbenigol, a thîm gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd rhanbarthol). Nododd yr awdurdod fod 42% (394) o'r ceisiadau am help a wnaed gan y timau diogelu gwaith cymdeithasol o fis Ebrill 2015 i fis Medi 2016 wedi'u dosbarthu ymhlith gwasanaethau'r ganolfan ganolog. Cafodd 291, er enghraifft, eu hatgyfeirio at wasanaeth Cysylltu Teuluoedd. Er bod y staff yn mawrbriso'r gwasanaethau hyn ac yn adrodd eu bod yn effeithiol, roedd rhwystredigaeth bod pwysau ar y gwasanaeth yn dylanwadu ar eu hargaeledd ac amseroldeb eu hymgysylltiad â theuluoedd.

1.18. Roedd y tair canolfan cymorth cynnar wedi'u cyd-leoli yn y timau diogelu gwaith cymdeithasol, gyda dwy ganolfan wedi'u lleoli yn eu hardal ddaearyddol i hybu cysylltiadau cymunedol gwell. Roedd yr arlwy o weithwyr proffesiynol sy'n ffurfio'r timau cymorth cynnar i gyd wedi derbyn hyfforddiant mewn 'arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth' a 'chfyweld ysgogiadol'. Roedd y timau'n gweithredu model 'tîm o amgylch y teulu neu dîm o amgylch yr ysgol'. Roedd y gwasanaeth wedi profi tyfiant sylweddol yn y nifer o asesiadau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a gwblhawyd, gan gynyddu o 228 yn 2014/15 i 681 yn 2015. Er bod y perfformiad gwell hwn yn gadarnhaol, ymddangosai ei fod wedi tarddu'n rhannol o leoliad gweithiwr proffesiynol arweiniol Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn y canolfannau ardal. Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y perygl o ganolbwyntio perchenogaeth o fewn swyddogaeth yn y modd hwn, yn hytrach na'i lledu ledled asiantaethau partner, yn dechrau cael effaith seilo bosibl. Cydnabuwyd felly bod angen mwy o waith i annog a chefnogi partneriaid i ddeall yr effaith gadarnhaol y gallent ei chael ar blant trwy ymgymryd â rôl y gweithiwr proffesiynol arweiniol.

1.19. Gwelodd arolygwyr dystiolaeth o rywfaint o waith cymorth cynnar amserol a rhagweithiol gyda phlant a theuluoedd a oedd yn cefnogi eu hannibyniaeth ac yn gwella llesiant, ond lleisiwyd rhai pryderon hefyd bod trothwyon ar gyfer ymyrraeth yn dal heb gael eu deall yn iawn gan asiantaethau partner.

Mae angen i gymorth cynnar gael ei dargedu'n ddigon cynnar. Mae rhai teuluoedd oedd yn arfer gallu cael mynediad at wasanaethau yn cael eu cau allan, ond bydd yr anghenion dim ond yn parhau i waethygu.
(asiantaeth bartner)

1.20. Gwnaeth cymhlethdod rhai o'r achosion a atgyfeiriwyd at gymorth cynnar achosi i rai o'r staff deimlo nad oedd y gwasanaeth bob amser yn gweithredu o fewn ei gymhwyster proffesiynol. Nododd darparwyr cymorth cynnar fod anghyfartaledd cyson rhwng y rheswm dros atgyfeirio a'r broblem wirioneddol maent yn ei chanfod wrth ymgysylltu'n uniongyrchol â theulu.

1.21. Gwelodd arolygwyr nifer fach o enghreifftiau lle'r oedd y trothwy ar gyfer gwasanaeth wedi cael ei gymhwyso'n anghyson ac roedd yr achos wedi cael ei gyfeirio at gymorth cynnar cyn i faterion diogelu gael eu datrys yn ddigonol. Cysurwyd yr arolygwyr rywfaint, serch hynny, am fod y staff yn y gwasanaeth cymorth cynnar yn hyderus wrth arfer eu cyfrifoldebau diogelu ac am fod cyngor gwaith cymdeithasol ar gael i'w cefnogi i 'uwchgyfeirio' achosion o'r fath, yn ôl yr angen.

Amrediad y Gwasanaethau

1.22. Roedd y cyngor wedi datblygu amrediad cadarnhaol o ddarpariaeth â chomisiwn, yr oedd cyfran fawr ohoni'n ddibynol ar gronfeydd grant. Amlygwyd rhywfaint o bwysau a bylchau yn y gwasanaeth, yn arbennig ynghylch gwasanaethau i blant mewn perthynas â cham-drin domestig, ond roedd y pryderon a leisiwyd gan y staff yn ymwneud gan fwyaf â materion capasiti ac ymatebolrwydd. Ar adeg yr arolygiad roedd rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau, ac roedd oedi o ran datgomisiynu ac ail-gomisiynu oherwydd cyfyngiadau ynghylch cyllid grant yn golygu bod rhai sefydliadau cymorth cynnar wedi rhoi'r gorau i dderbyn atgyfeiriadau newydd. Roedd yr awdurdod yn ceisio datrys y materion hyn a chryfhau comisiynu yn seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol. Roedd uwch-reolwyr yn ymwybodol iawn bod mynediad at gymorth cynnar yn allweddol i liniaru'r angen am wasanaethau statudol ac i gyflenwi'r strategaeth cymorth cynnar a sefydlogrwydd. Yn amlwg, mae'r diffyg comisiynu hwn yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth.

1.23. Roedd yr awdurdod wedi dechrau gwaith i gasglu a nodi'r galw am wasanaethau, ac roedd wedi datblygu set ddata gyfrannol a wnaeth ddarparu rhywfaint o wybodaeth rifiadol am wasanaethau cymdeithasol a chymorth cynnar. Mae'r data'n cael ei adolygu gan Fwrdd Diogelu ac Ymyrraeth Gynnar amlasiantaeth, a gadeirir gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd y data a welodd yr arolygwyr mewn cam cynnar iawn, ond roedd gan yr awdurdod gynlluniau i yrru hyn yn ei flaen i gynnwys mwy o bwyslais ar effeithiau a chanlyniadau. Bydd dadansoddi gwybodaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r awdurdod ddeall effeithiolrwydd ei drefniadau a'i anghenion comisiynu a datblygiad yn y dyfodol.

Gwasanaethau Statudol

1.24. Roedd y trefniadau ar gyfer mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol i blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u trefnu'n dda trwy'r tîm asesu. Trwy gyflwyno gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, roedd y gwasanaeth wedi ceisio symleiddio disgwyliadau gweithredol mewn perthynas â GCC trwy nodi mai rôl y tîm asesu yw darparu gwasanaeth dyletswydd i dderbyn a sgrinio atgyfeiriadau, y gallant gael eu cofnodi fel gwybodaeth a'u cau neu eu hatgyfeirio at gymorth cynnar. Lle'r oedd angen cyngor neu gymorth, ymgwymerodd y tîm asesu ag asesiad cymesur gan ddefnyddio templed asesu gofal a chymorth, y gallai canlyniad yr asesiad gynnwys nodi anghenion cymwys.

1.25. Roedd yr awdurdod wedi profi tyfiant flwyddyn i flwyddyn o ran nifer yr atgyfeiriadau. Yn 2015/16, nododd yr awdurdod gynydd o 8% mewn cysylltiadau o 4,619 i 4,988 ac, o'r cyfanswm hynny, dyfarnwyd bod 1,288 angen ymglymiad y gwasanaethau cymdeithasol (cynydd o 28% yn y nifer gyffredinol o atgyfeiriadau).

1.26. Roedd goruchwyliaeth broffesiynol o'r trefniadau dyletswydd ar waith gyda thri uwch-ymarferydd dynodedig yn rhannu'r gwaith o reoli'r trefniadau cyswllt cyntaf o ddydd i ddydd. Roedd eu cyfrifoldebau'n cynnwys sgrinio achosion, gwneud a chymeradwyo penderfyniadau ynghylch yr holl gysylltiadau newydd, rheoli trefniadau strategaeth amddiffyn plant cychwynnol a dosrannu achosion i'w hasesu ymhlith y tîm. Roedd pwysau cynyddol ar y gwasanaeth yn golygu bod o leiaf dau o'r uwch-ymarferwyr bellach ynghlwm wrth y broses sgrinio'n ddyddiol. Nododd arolygwyr tra oeddent yno y bu'n rhaid i'r uwch-ymarferydd cymorth cynnar, eto gweithiwr cymdeithasol profiadol, gamu i mewn i gefnogi swyddogaeth y gwaith cymdeithasol am ei fod o dan ei gapasiti ac yn methu â rheoli llif y gwaith ar y diwrnod hwnnw.

1.27. Mae gan reolwr tîm gyfrifoldeb cyffredinol am y pod gwaith cymdeithasol, gan gynnwys goruchwyliaeth, perfformiad a llif gwaith. Roedd y rheolwr tîm a'r uwch-ymarferwyr i gyd yn meddu ar brofiad addas ac yn sicr yn eu galluedd i wneud penderfyniadau proffesiynol. Un o gryfderau allweddol y tîm asesu oedd y berthynas waith glòs rhwng y rheolwyr a'r staff, a'u hymrwymiad ar y cyd i gefnogi plant a'u teuluoedd mewn modd diogel. Roedd lleoliad canolog y tîm yn golygu bod rheolwyr y grŵp yn hygyrch ac ystyriwyd eu bod yn gefnogol. Soniodd y staff, fodd bynnag, fod newidiadau yn swyddogaethau rheolwyr y grŵp i hwyluso 'blaenoriaethau gwireddu'r weledigaeth' wedi dylanwadu o raid ar eu hamser, eu hargaeledd a dilyniant o ran eu cyfrifoldebau.

1.28. Roedd yr awdurdod wedi cynnal perfformiad a oedd yn dda yn gyson mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau y gwnaed penderfyniad ar eu sail o fewn un diwrnod gwaith, ac roedd wedi cynnal y dangosydd perfformiad hwn fel modd o ddarparu sicrwydd. Fel rhan o gyflwyno'r Ddeddf, roedd y rheolwr a'r uwch-ymarferwyr oll wedi 'gweithio' achosion gan ddefnyddio'r templedi newydd i ddeall y newidiadau angenrheidiol i arferion yn well. Roedd rheolwr y tîm wedi annog systemau hefyd, gan gynnwys cyfarfodydd dyddiol â'r uwch-ymarferwyr i helpu i gefnogi cysondeb o ran penderfyniadau ac roedd rheolwr y grŵp yn ymgymryd â rhywfaint o samplu achosion. Canfu arolygwyr rywfaint o dystiolaeth gadarnhaol o oruchwyliaeth gan reolwyr, ond gwnaethant ganfod, er bod penderfyniadau sgrinio'n amserol, nad oedd ansawdd y penderfyniadau trothwyon yn gyson eto.

1.29. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau o achosion a oedd wedi'u rheoli'n dda a lle'r oedd sylw sgrinio'n canolbwyntio ar ystyriaethau diogelu a hefyd ar 'beth sydd o bwys' i'r unigolyn. Pan gafwyd cyfathrebiadau lle'r oedd arwyddion amlwg bod plentyn mewn perygl neu wedi dioddef niwed sylweddol, gwnaed penderfyniadau prydlon a chymerwyd camau cychwynnol effeithiol i amddiffyn y plentyn.

1.30. Mewn achosion eraill, roedd manylion yr atgyfeiriad yn anghyflawn ac nid oedd y wybodaeth o'r amrediad o wiriadau asiantaeth yr ymgwymerwyd â nhw fel rhan o'r broses sgrinio bob amser yn amlwg. Nid oedd y rheswm dros atgyfeirio bob amser yn eglur nac wedi ei egluro'n ddigonol i sicrhau priodoldeb yr ymateb chwaith. Dywedodd staff a chadarnhaodd arolygwyr fod atgyfeiriadau'r tîm dyletswydd argyfwng wedi'u nodi'n anghyson ar y system electronig a bod cyfathrebiadau yn y gwasanaeth yn ystod y dydd yn rhy gyfyngedig i sicrhau trefniadau ar gyfer trosglwyddo a chymryd camau gweithredu amserol.

1.31. Cafodd yr arolygwyr anhawster o ran gwerthuso ansawdd y penderfyniadau gan reolwyr, am nad oedd y rhesymeg ategol ar gyfer cymhwysio trothwyon yn cael ei chofnodi'n rheolaidd ac nid oedd yn adlewyrchu, er enghraifft, i ba raddau yr oedd effaith gynyddol digwyddiadau amryfal wedi cael ei hystyried. Mae angen i uwch-reolwyr ystyried i ba raddau mae hyn yn cyflwyno perygl diogelu posibl. Mewn lleiafrif o'r achosion a archwiliwyd, nid oedd sgrinio wedi nodi a lleihau'r peryglon i blant ar adeg cysylltu ac atgyfeirio. Yn yr achosion hyn, ystyriodd yr arolygwyr fod yr achos wedi'i gau'n rhy gynnar, wedi'i drosglwyddo'n amhriodol i gymorth cynnar neu fod angen ymateb statudol brys.

1.32. Er gwaethaf perthnasau gwaith da crybwylledig ag asiantaethau partner, roedd hi'n amlwg nad oeddent yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o feini prawf trothwyon, a dywedodd staff wrth yr arolygwyr nad oedd atgyfeiriadau gan bartneriaid o ansawdd digon cyson i gefnogi'r tîm asesu i wneud penderfyniadau gwybodus. Gwnaeth rhai partneriaid hefyd sôn bod mynediad at wasanaethau'n dod yn fwyfwy biwrocraataidd am nad oeddent yn deall bwriad y trefniadau pwynt cyswllt unigol.

1.33. Tynnwyd sylw arbennig at y mater o gydsyniad a'r ffaith nad oedd yn derbyn digon o sylw gan atgyfeirwyr, ac roedd hi'n amlwg nad oedd teuluoedd bob amser yn ymwybodol eu bod wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm asesu, hyd yn oed pan oedd hyn ar gyfer cymorth cynnar. Priodolwyd y 'gwrthwynebiad' canfyddedig i gaffael cydsyniad priodol yn aml i weithwyr proffesiynol 'yn dymuno gwarchod eu perthynas â theuluoedd', ond roedd y gwrthwynebiad hwn hefyd yn dangos diffyg dealltwriaeth o ofynion y gwasanaeth. Roedd y tîm asesu'n ceisio herio'r materion hyn yn gadarnhaol a chefnogi partneriaid i wneud atgyfeiriadau sydd wedi'u targedu'n fwy priodol. Roedd hyn yn cael eu hwyluso trwy ymyrraeth cydweithwyr amlasiantaeth cyd-leoledig yn y tîm, a wnaeth helpu i gasglu gwybodaeth berthnasol hefyd. Bwriedir y bydd datblygu CDA yn datrys rhai o'r pryderon hyn. Fodd bynnag, roedd hi'n glir bod angen mwy o waith amlasiantaeth mewn perthynas â disgwyliadau cyfredol y gwasanaeth GCC. Mae angen i staff a phartneriaid ymgysylltu'n fwy â'r broses sicrhau ansawdd, yn arbennig mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch trothwyon mynediad.

'Mae'r asesiad yn dechrau pan mae ymholiadau ar gysylltiadau trydydd parti'n dechrau ac yna maen nhw'n mynd i nunlle oherwydd wrth i ni siarad â theuluoedd doedden nhw ddim yn ymwybodol o'r atgyfeiriad a dydyn nhw ddim eisiau gwasanaeth.' Mae popeth yn cymryd amser.
(Gweithwyr cymdeithasol)

gwasanaeth a wnaeth filwrio yn erbyn effeithiolrwydd y tîm ac roedd weithio ar forâl y staff. Wrth groesawu fframwaith, dywedodd rhai o'r staff wrth yr arolygwyr eu bod yn teimlo wedi'u dadrymuso i arfer crebwyll proffesiynol, er enghraifft i gau achosion ar y pwynt cyswllt. Dywedwyd bod y cyfuniad o wybodaeth anghyflawn a ddarparwyd gan atgyfeirwyr proffesiynol, sbardun y gwasanaeth ar gyfer peri asesiadau cymesur a natur or-gyfarwyddol y templed asesu ategol i gyd wedi arwain at 'weithgarwch rhy lafurus o lawer a oedd yn anghymesur i'r angen'.

1.35. Cadarnhaol oedd nodi bod uwch-reolwyr wedi ceisio ymateb i'r pryderon hyn ac wedi cyflwyno trefniadau trosglwyddo newydd i wella'r mewnbwn gwaith ar gyfer y tîm. Penderfynwyd hefyd, cyn gweithredu'r CDA, adfer cyfarfod sgrinio ar y cyd â'r heddlu i reoli'r cyfanswm uchel o gysylltiadau heddlu'n well ac i wella'r gwaith o ganfod risgiau a chymryd camau amserol.

1.36. Er bod y newidiadau hyn i gyd yn ddefnyddiol, roedd hi'n amlwg er hynny bod y dulliau asesu ar ffurf templed a gyflwynwyd wedi creu dull fformiwlâig yn gyffredinol. Mae arferion diogelu da yn seiliedig ar allu ymarferwyr profiadol i arfer crebwyll priodol a chymesur fesul achos. Er bod angen arfer crebwyll bob amser mewn fframwaith eglur, dylai uwch-reolwyr adolygu i ba raddau mae'r swyddogaeth ddadansoddi a phenderfynu ar waith cymdeithasol gweithredol yn cael ei disodli gan broses a'r posibilrwydd y gall hyn danseilio penderfyniadau proffesiynol hyderus. Mae angen i staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth ymgysylltu'n weithredol â'r adolygiad parhaus o'r gwaith o weithredu'r DGCLI ac unrhyw waith canlyniadol o ail-lunio'r gwasanaeth.

Casgliad:- Trefniadau Mynediad

Canfu arolygwyr fod yr awdurdod wedi gweithio'n galed yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i ail-lunio'i wasanaethau. Cyflenwyd swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yr awdurdod trwy'r tîm asesu a wnaeth ddarparu pwynt cyswllt unigol ar gyfer gwaith cymdeithasol ac ymyrraeth ataliol (Cymorth Cynnar).

Roedd trefniadau mynediad at Gymorth Cynnar a gwasanaethau statudol yn barchus tuag at hawliau ac unigoliaeth pobl, ac roeddent ar gael yn ddwyieithog ond roedd diffyg gwybodaeth hygyrch o ansawdd ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd cydleoli staff o wasanaethau cymdeithasol, Cymorth Cynnar ac asiantaethau partner yn y tîm asesu yn cefnogi plant a theuluoedd i gael eu cyfeirio'n haws at wasanaethau priodol, ond nid oedd wedi aeddfedu eto i mewn i wasanaethau integredig. Bydd trefniadau amlasiantaeth y tîm asesu yn cael eu hymestyn trwy ddatblygu Hwb Diogelu Amlasiantaeth o fis Ebrill 2017. Roedd y trefniadau mynediad cyfredol, gan gynnwys y rhyngweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a Chymorth Cynnar, wedi'u hategu gan ddogfen meini prawf trothwyon, ond nid oedd asiantaethau partner yn deall hon yn ddigonol eto. Roedd penderfyniadau sgrinio yn

amserol, a gwelodd arolygwyr rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol o oruchwyliaeth gan reolwyr. Pan dderbyniwyd cyfathrebiadau gan wasanaethau plant ac roedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, cymerwyd camau cychwynnol di-oed a chymesur i amddiffyn plant. Roedd ansawdd penderfyniadau trothwyon yn anghyson, fodd bynnag, ac roedd diffyg tystiolaeth yn eu cylch. Cydnabu'r gwasanaeth fod y newidiadau a gyflwynwyd i weithredoli GCC wedi cyflwyno disgwyliadau ychwanegol a wnaeth roi pwysau ar gapasiti'r rheolwyr ac ar lwyth gwaith y tîm asesu. Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau partner bob amser o ansawdd digonol i gefnogi'r tîm asesu yn eu penderfyniad sgrinio, a dangosodd rhai atgyfeirwyr proffesiynol ddiffyg dealltwriaeth o ofynion y gwasanaeth. Roedd angen mwy o waith i ddatblygu systemau sicrhau ansawdd amlasiantaeth i gefnogi'r staff i arfer dyfarniadau priodol a chymesur ac i ddarparu sicrwydd bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y newid cyfagos i Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth yn darparu cyfle amserol i adnewyddu disgwyliadau ar gyfer y gwasanaeth a oedd yn deillio o DGCLI, gan gynnwys dysgu gan arferion. Bydd angen i'r awdurdod ymestyn ei wybodaeth perfformiad hefyd i gynnwys dadansoddiad o'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar leihau angen a risg.

Diogelu ac Asesu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Pan fydd pobl yn dioddef camdriniaeth neu mewn perygl o esgeulustod neu niwed, maent yn derbyn ymatebion aml-asiantaeth sydd wedi'u cydgysylltu'n dda. Mae anghenion a risgiau pobl yn cael eu hasesu'n brydlon sy'n hyrwyddo eu diogelwch, eu llesiant a'u gallu i fod yn annibynnol. Mae asesiadau yn ystyried canlyniadau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau personol yr unigolyn sy'n destun asesiad a rhai pobl berthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae asesiadau'n darparu dealltwriaeth glir o'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Cymerwyd camau gweithredu brys cymesur i amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol. Roedd trafodaethau am strategaeth yn amserol ac yn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth yn briodol gydag asiantaethau allweddol.
- Roedd y tîm asesu'n gweithio'n galed i roi gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith.
- Roedd ansawdd yr asesiadau a'r cofnodion a welwyd yn amrywiol; roedd rhai yn dda ond nid oedd eraill yn dangos tystiolaeth ddigonol o'r egwyddor cyd-gynhyrchu neu ddadansoddiad o angen a risg o'r cychwyn.
- Nid oedd arferion gwaith cymdeithasol da i ddarganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu hadlewyrchu'n dda yn gyson yng nghynnwys yr asesiadau.

- Nid oedd prydlondeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau bob amser yn amlwg ac roeddent yn dal i ddibynnu'n ormodol ar gydberthnasau proffesiynol unigol.
- Gellid gwella ansawdd cynlluniau i adlewyrchu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiadau a dylai cynlluniau ganolbwyntio ar y plentyn a chael eu gyrru gan ganlyniadau.
- Gwelwyd bod rheolwyr yn goruchwyllo asesiadau a chynlluniau ond nid oeddent yn darparu digon o her a sicrwydd ansawdd yn gyson.
- Mae angen rhannu asesiadau a chynlluniau dilynol yn well gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu dealltwriaeth o'r materion ac ymgysylltiad ag unrhyw gynllun dilynol.

Esboniad o'r Canfyddiadau

Diogelu

2.1. Ymatebodd y tîm asesu'n brydlon yn bennaf wrth ymdrin â'r plant hynny y mae eu hanghenion yn fwy neu y mae angen camau gweithredu i fynd i'r afael â pheryglon. Lle roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hadnabod i fod mewn perygl uniongyrchol o niwed, cynhaliodd gwasanaethau plant drafodaeth neu gyfarfod strategaeth gyda'r heddlu.

Dangosodd yr awdurdod allu i wneud penderfyniadau clir wrth symud i archwiliadau amddiffyn plant, a chymerwyd camau brys cymesur i amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol.

2.2. Roedd yr uwch ymarferwyr yn y tîm asesu a'r canolfannau diogelu'n rhannu cyfrifoldeb dros reoli cyfarfodydd strategaeth ac ymchwiliadau adran 47 mewn achosion newydd. Er mwyn hyrwyddo cysondeb roedd y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn cynnal ymchwiliad adran 47 yn y tîm asesu'n adrodd i un uwch ymarferydd penodol a oedd yn goruchwyllo'r ymchwiliad. O'r achosion a gafodd eu hadolygu, nododd yr arolygwyr fod y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant yn meddu ar gymwysterau addas ond nad oeddent bob tro'n brofiadol. Nid oedd y staff a oedd yn gyfrifol am achosion amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal bob tro'n gymwys ond roedd goruchwyliaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan y rheolwyr.

2.3. Canfu'r arolygwyr fod trafodaethau a/neu gyfarfodydd ynglŷn â strategaeth yn cael eu rheoli yn unol â'r canllawiau. Roedd y cydberthnasau rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn cael eu hystyried yn rhai cadarnhaol ac roedd y trefniadau ar gyfer trefnu trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth yn effeithiol. Roedd trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal yn brydlon a gellid eu cynnal ar yr un diwrnod yn ôl y gofyn. Roedd diwrnod yn cael ei bennu bob wythnos ar gyfer cyfarfodydd strategaeth a dywedodd y staff a phartneriaid bod hyn yn rhoi mwy o gyfle i asiantaethau perthnasol ddarparu gwybodaeth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Nodwyd bod staff cymorth cynnar hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, lle roedd yn berthnasol. Roedd trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth i drafod canlyniadau yn cael eu cynnal hefyd ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel ffordd o roi gwybodaeth barhaus i asiantaethau, adolygu cynnydd a phenderfynu ar y camau nesaf.

2.4. Ystyriwyd bod y nifer fechan o drafodaethau strategaeth, ymchwiliadau adran 47 ac adroddiadau cynhadledd achos a welwyd gan yr arolygwyr fel rhan o'r sampl o ffeiliau achos yn briodol ac o ansawdd digonol i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. Roedd plant yn cael eu gweld /eu harsylwi ac yn cael eu gweld yn unigol fel rhan o'r ymchwiliad. Ni welodd yr arolygwyr unrhyw enghreifftiau o blant a theuluoedd yn destun ymchwiliadau diangen yn ymwneud ag amddiffyn plant. Pan wnaed penderfyniad bod angen cynhadledd amddiffyn plant, cynhaliwyd y gynhadledd o fewn amserlenni priodol. Roedd y staff yn deall y gweithdrefnau amddiffyn plant yn dda, ac er gwaethaf ansawdd amrywiol y cynlluniau gofal a chymorth amddiffyn plant a welwyd, roedd teuluoedd yn cael cymorth i gadw plant yn ddiogel.

2.5. Roedd trefniadau sefydledig ar gyfer ceisio cyngor cyfreithiol trwy gyfarfodydd y porth cyfreithiol. Gallai esboniad o'r berthynas rhwng cyfarfodydd y porth cyfreithiol a'r paneli adnoddau o ran gwneud penderfyniadau fod o fantais. Byddai gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr hefyd yn elwa ar gael prosesau cyfochrog mwy eglur rhwng amddiffyn plant a'r Amlinellid Cyfraith Gyhoeddus, a dylai cyd-ddealltwriaeth o risg a'r potensial am newid fod yn sail i'r prosesau hynny.

2.6. Anaml iawn y bu i'r awdurdod ddefnyddio pwerau amddiffyn brys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn yr un achos a adolygwyd gan arolygwyr holwyd a fyddai camau gweithredu cynharach wedi arwain at ganlyniad gwell. Dylai cyflwyno'r ganolfan diogelu aml-asiantaeth gefnogi system ar gyfer adolygu a dysgu o achosion o'r fath.

2.7. Yn ogystal â bod yn aelod gweithredol o Fwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi sefydlu Bwrdd Gweithredol Diogelu dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac sy'n cynnwys partneriaid ar draws y cyngor. Mae hyn wedi helpu i sicrhau safbwynt lleol a gweithgarwch goruchwyllo i oedolion, pobl ifanc a phlant o fewn y Fwrdeistref Sirol. Nodwyd bod yr awdurdod wedi gwneud gwaith sylweddol i godi proffil peryglon o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymateb iddynt trwy ddatblygu Tasglu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Soniodd yr holl staff y cyfwelwyd â nhw am hyfforddiant diweddar ar y pwnc hwn a oedd yn cynnwys "sesiynau mapio" arloesol gyda staff a phartneriaid. Mae angen dull tebyg yn awr mewn perthynas ag asesiad risg.

Asesu

2.8. Ar adeg yr arolygiad roedd gwasanaethau plant Pen-y-bont ar Ogwr wedi ceisio cysoni arferion asesu gyda gofynion newydd Deddf GCLI. Canlyniad hyn oedd bod yr holl asesiadau gan gynnwys y rhai a ddynodwyd yn rhai a oedd yn darparu cyngor a chymorth (cymesur) yn cael eu cwblhau yn defnyddio un templed asesu gofal a chymorth a oedd yn cynnwys pum maes Deddf GCLI. Roedd cyfrifoldeb dros asesu, diogelu a chynllunio gofal a chymorth ar gyfer achosion newydd yn cael ei ddyrannu i staff ym mod gwaith cymdeithasol y tîm asesu. Roedd pwyntiau trosglwyddo achos wedi cael eu penderfynu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cynnar i ymgysylltu â phlant a theuluoedd a gwneud gwahaniaeth iddynt, ac i gadw achosion o newid gweithiwr cymdeithasol yn gynnar, ar adeg pan allai teulu fod mewn argyfwng, yn y lleiafrif.

2.9. Y Tîm Plant Anabl a gynhaliodd yr holl asesiadau ar gyfer plant anabl gan gynnwys y rhai lle mae pryderon am berygl neu niwed posibl i blant anabl. Dim ond ychydig o asesiadau a gynhaliwyd gan y tîm plant anabl a adolygwyd gan yr arolygwyr ond roeddent o ansawdd da yn ôl pob golwg. Gwelodd arolygwyr dystiolaeth hefyd yn y ffeiliau bod y tîm plant anabl yn cynnig asesiadau gofalwyr yn rheolaidd i rieni/gofalwyr plant anabl.

2.10. Roedd ymroddiad y tîm asesu'n dda, ac roedd ganddynt brofiad amrywiol gan gynnwys gweithwyr newydd gymhwyso a gweithwyr nad oeddent wedi cymhwyso yr oedd pob un ohonynt yn cynnal asesiadau. Dywedodd staff a rheolwyr fod capasiti'r tîm yn cael ei 'weithio i'r eithaf' oherwydd pwysau'r galw 'cystadleuol a didrugaredd' a oedd yn cael ei osod ar y gwasanaeth. Roedd llwythi achos, yn arbennig rhai'r staff mwy profiadol, yn cael eu disgrifio fel 'cynyddol amhosibl eu rheoli' ac roedd goruchwyliaeth rheolwyr dros achosion dan bwysau yn yr un modd.

2.11. Ar adeg yr arolygiad roedd yr awdurdod yn ei flwyddyn gyntaf o gasglu data perfformiad llinell sylfaen mewn perthynas â chyflwyno Deddf GCLI. Adroddodd Pen-y-bont ar Ogwr bod 1931 o blant a theuluoedd wedi derbyn cyngor a chymorth (a oedd yn cael eu hystyried i fod yn asesiadau cymesur) yn y naw mis ers cyflwyno'r Ddeddf, (Ebrill 2016 - Rhagfyr 2016). Cynhaliwyd 784 asesiad gofal a chymorth, yr oedd 381 (49%) ohonynt wedi arwain at gynllun gofal a chymorth, gyda 404 (51%) yn cael eu hasesu i fod heb anghenion cymwys. Canfu gwybodaeth o'r set ddata a rennir a gasglwyd ar gyfer y bwrdd Ymyrraeth Gynnar a Diogelu bod 65% o'r holl geisiadau am gymorth (cymorth cynnar) a dderbyniwyd gan y tîm asesu rhwng Ebrill 2015 a Medi 2016 wedi digwydd yn dilyn asesiad gofal a chymorth. Nid oedd arwyddion bod y galw ar y tîm wedi lleihau o gwbl a bydd angen i'r awdurdod ddadansoddi ei berfformiad, gan gynnwys ei gyfradd o atgyfeiriadau, er mwyn deall yn well a yw'r gweithgarwch cyfredol yn gymesur, yn gynaliadwy, yn hyrwyddo canlyniadau gwell i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn eu gwneud yn fwy annibynnol.

2.12. Roedd rheolwyr yn rhagweithiol ac roedd ganddynt systemau ar waith i ddilyn asesiadau ond nid oedd y targedau unigol ar gyfer cwblhau asesiadau'n cael eu cofnodi'n dda yn y ffeil. Canfu arolygwyr nad oedd asesiadau bob amser yn cael eu cynnal yn brydlon i gyd-fynd ag anghenion y plentyn ac nid oedd rhai asesiadau'n cael eu cwblhau o fewn 42 diwrnod. Dywedodd staff wrth yr arolygwyr nad oedd natur ailadroddus y templed asesu'n hwyluso trosolwg o'r achos a'i bod yn cymryd gormod o amser i'w gwblhau.

2.13. Roedd ansawdd yr asesiadau a welwyd yn amrywiol. Gwelodd yr arolygwyr rai enghreifftiau da a oedd yn gymesur ag angen ac a oedd yn cael eu cynnal mewn dull cyfannol.

Roedd yr asesiad yn amlinellu prif agweddau'r digwyddiad, trafodaeth a sgwrs effeithiol am 'yr hyn sydd o bwys' a oedd yn canolbwyntio'n glir ar y plentyn. Roedd yr ymgysylltiad cyffredinol yn sensitif ac yn cael ei gynnal yn brydlon. Dangosodd cyfweiliadau a'r cofnod ffeiliau achos bod plant yn cael eu gweld a bod yr asesiad yn gymesur. Roedd yr aseswr yn cyfeirio'r teulu at wasanaethau cymorth posibl a oedd ar gael ac at wybodaeth diogelu a llesiant i blant lle y gallant fod yn dyst i gam-drin domestig. Rhoddodd yr ymyrraeth sicrwydd i'r fam ac roedd yn teimlo ei bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau yn ôl yr angen. (Arolygydd AGGCC)

2.14. Dangosodd yr enghreifftiau gorau bod yr asesiadau'n adeiladu ar y wybodaeth gychwynnol, roedd y plentyn yn cael ei weld ac roedd y cofnod yn casglu barn y plentyn a barn y rhieni (y rhai sy'n byw gyda'r plentyn ac nad ydynt yn byw gyda'r plentyn). Roedd hyn yn cynnwys beth oedd o bwys iddynt yng nghyd-destun eu hanes teuluol a'u hanghenion diwylliannol. Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar gryfderau a pheryglon posibl ac yn cefnogi gwaith i adnabod angen cymwys a chymorth cynnar priodol.

Mewn enghreifftiau eraill fodd bynnag, canfu arolygwyr bod defnyddio "sgyrsiau yr hyn sydd o bwys" fel y dangoswyd yn yr asesiad yn adlewyrchu'r hyn a ddymunir yn hytrach na'r hyn y gellir bod ei angen o ganlyniad i orddibyniaeth ar hunan-adrodd. Roedd diffyg cyd-destun hanesyddol mewn nifer o enghreifftiau ac ychydig o archwiliad o effaith gwasanaethau cymorth a ddarparwyd yn flaenorol.

2.15. Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrthym fod prydlondeb ac ansawdd cyfraniadau gan bartneriaid at asesiadau'n amrywiol iawn ac yn aml roeddent yn parhau i fod yn ddibynnol ar gydberthnasau proffesiynol unigol. Mewn rhai achosion a welwyd gan arolygwyr, roedd yn amlwg nad oedd partneriaid perthnasol wedi cyfrannu'n effeithiol at asesiadau cymhleth er gwaethaf ymdrechion dyfal gan staff gwasanaethau cymdeithasol, a oedd yn peryglu gwaith gwasanaethau cymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.

Roedd asesiad risg a gynhaliodd gwasanaethau plant o dad a oedd wedi cael ei farnu'n euog o drosedd ddifrifol dan fygythiad i ddechrau oherwydd diffyg gwybodaeth a dadansoddiad o'r perygl a ddarparwyd gan yr asiantaethau hynny a oedd yn gweithio gyda throseddu'r tad. (Arolygydd AGGCC)

2.16. Yn aml nid oedd yr asesiadau o'r angen am ofal a chymorth yn darparu dadansoddiad digon cyson o berygl neu argymhellion clir ar gyfer camau gweithredu. Roedd yn peri pryder nad oedd y staff a'r partneriaid a gyfwelwyd yn ymwybodol o broses asesu risg yr awdurdod lleol ac roedd hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â sut roedd yr asesiad yn llywio ac yn troi'n gynllun rheoli risg aml-asiantaeth a rennir.

'Weithiau mae asesiadau cyn i achosion ddod i gynhadledd yn anghyson, mae rhai yn dda a rhai ddim cystal, nid yw rhai'n deall y meysydd y dylent fod yn ymdrin â nhw wrth lunio cynllun plentyn ond mae rhai yn newydd iawn i'r rôl hefyd.' (Arolwg staff)

2.17. Er ei bod yn gadarnhaol bod y templed asesu'n gofyn am nodi 'peryglon a chryfderau', roedd hyn yn aml yn cynhyrchu rhestr yn hytrach na'r dadansoddiad sydd ei angen ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn ffordd effeithiol. Mewn rhai achosion nid oedd yr asesiadau a'r cynllun dilynol yn dangos eu bod yn canolbwyntio'n ddigonol ar brofiad y plentyn ac roedd diffyg dadansoddiad ynddynt o effaith ymddygiad yr oedolion ar y plentyn.

Felly roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r asesiad er mwyn rhoi cymorth i'r teulu ddysgu, gan alluogi iddynt fyfyrion ar sut y gallent wneud pethau'n wahanol neu'n well, yn cael eu colli.

2.18. Nid oedd materion o gydymffurfiaeth guddiedig yn cael eu hadnabod bob tro ac roedd hyn yn golygu mewn rhai achosion bod gormod o ddibyniaeth ar allu'r teulu i wella canlyniadau i blant heb dystiolaeth o newid cynaliadwy. Roedd angen i weithwyr cymdeithasol fod yn fwy hyderus wrth weithio gyda theuluoedd ac amlinellu eu dadansoddiad proffesiynol o risg ac anghenion. Weithiau roedd diffyg dull cyfannol a chydlynol o asesu angen a risg yn andwyol i'r nod o gyflawni dealltwriaeth ar y cyd gyda theuluoedd ynglŷn â lefel y pryder, pa newid oedd ei angen ganddynt a/neu ganlyniadau posibl methu â gwneud y newidiadau angenrheidiol. Nododd staff a phartneriaid y byddent yn croesawu dull diffiniedig ar gyfer y gwasanaeth cyfan o gyflawni'r asesiadau hyn a rheoli risg. Cafwyd ar ddeall bod y deunyddiau hyn yn y broses o gael eu hail ddatblygu ac y byddent yn cael eu hail lansio ac yn cynnwys rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr.

2.19. Roedd rhai enghreifftiau o arfer da lle roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ragweithiol yn cynhyrchu eu hasesiadau ond nid oedd bob amser yn amlwg. Roedd rheolwyr a staff yn ymroddedig iawn i ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd ond pwysleisiodd staff ar draws y gwasanaeth yr effaith roedd pwysau llwyth gwaith wedi ei chael ar gyflawni hyn. Roedd yn siom nad oedd dystiolaeth bob amser yn y cofnodion o waith da roedd ymarferwyr yn ei wneud gyda phlant a theuluoedd fel rhan o'r asesiad ond ei fod i'w weld yn hytrach trwy gyfweiliadau arolygwyr â staff.

Rydym eisiau'r gorau ar gyfer ein plant, mae'n anodd ond mae'r gweithwyr cymdeithasol a'r holl wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd wedi ein helpu ni i ddatrys hyn ac rydym yn gwneud yn dda fel teulu yn awr. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn onest ynglŷn â'r hyn roedd yn rhaid i ni ei wneud, dim ond eisiau cadw ein plant oeddem ni ac maen nhw wedi ein helpu ni i wneud hynny. (Defnyddiwr gwasanaeth – rhiant)

2.20. Roedd eiriolaeth yn faes gorfodol yn fformat yr asesiad a dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym fod materion yn ymwneud â chymorth i ymgysylltu yn y broses yn cael eu cyflwyno i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn rheolaidd. Fodd bynnag,

ychydig o enghreifftiau a welodd arolygwyr o gynigion o eiriolaeth ffurfiol yn ystod y cam asesu.

2.21. Nid oedd arolygwyr yn hyderus bod asesiadau a'r cynlluniau dilynol yn cael eu rhannu â defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o'r materion. Arweiniodd gwybodaeth o'r ffeiliau a adolygwyd a chyswllt uniongyrchol yr arolygwyr â theuluoedd at y casgliad er bod y rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol am eu profiadau, nid oedd eraill yn eglur ynghylch beth oedd pwrpas y rhan roedd gwasanaethau plant yn ei chwarae yn eu bywydau. Mewn lleiafrif o achosion roedd hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar brofiad y teulu a'u gallu/parodrwydd i ymgysylltu â phroses a ddisgrifiwyd ganddynt fel un llethol ac nad oeddent yn ei deall.

Dyfyniad

'Fy mhroblem i oedd hi ac rwy'n cael help, wnaethon nhw erioed ddweud ei fod yn effeithio ar y plant felly dylent adael llonydd i ni, mae yn erbyn fy hawliau dynol' (defnyddiwr gwasanaeth – rhiant)

'Ar y dechrau doeddwn i ddim yn meddwl bod agwedd y gweithwyr cymdeithasol yn helpu, roeddwn yn teimlo fy mod dan bwysau mawr, ond nawr rwy'n teimlo eu bod yn gweithio gyda ni a gallaf ddeall eu safbwynt nhw, mae'n iawn 'nawr, mae'n teimlo fel petai pob un ohonom ni eisiau'r un peth'.
(Defnyddiwr gwasanaeth – rhiant)

2.22. Unwaith eto gwelodd yr arolygwyr bwyslais cadarnhaol ar gyfeirio pobl at gymorth yn gynnar lle roedd yr asesiad gofal a chymorth yn casglu nad oedd unrhyw angen cymwys. Er gwaethaf cael eu hysbysu nad oedd y gofynion rhwng gwasanaethau statudol a chymorth cynnar yn arwain at ddyblygu asesiadau'n ddiangen, nid oedd yr arolygwyr yn hyderus mai dyma sut roedd teuluoedd yn profi'r rhyngwyneb rhwng y ddau wasanaeth.

2.23. Canfu'r arolygwyr lle roedd angen cymwys yn cael ei ganfod mewn asesiad, bod cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu'n brydlon ac roedd hwn yn sbarduno trosglwyddo'r achos at ganolfan diogelu berthnasol y gweithwyr cymdeithasol. Roedd arolygwyr yn bryderus bod ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn anghyson ac nad oeddent yn adlewyrchu canlyniadau'r asesiad yn ddigonol. Yn aml nid oedd y cynlluniau a welwyd yn cynnwys amserlenni, cyfrifoldebau dros gamau gweithredu a pha wasanaethau oedd i gael eu darparu a pham. Yn arwyddocaol, nid oedd rhai cynlluniau'n cynnwys lefel y risg na'r trefniadau wrth gefn angenrheidiol pe na bai'r newid yn cael ei gyflawni. Nid oedd bob amser yn glir sut roedd teuluoedd yn cael eu hymgysylltu â'r gwaith o gyd-gynhyrchu eu cynlluniau nac a oeddent wedi derbyn copïau o'r cynlluniau. Mewn rhai achosion roedd yr arolygwyr yn pryderu bod natur gyffredinol rhai o'r cynlluniau'n dangos diffyg perchnogaeth ac o bosibl yn adlewyrchu'r angen i hwyluso trosglwyddo'r gwaith.

2.24. Disgrifiodd staff a rheolwyr ar draws y gwasanaeth amrywiaeth yn yr asesiadau, ond yn arbennig yn ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth. Nid oedd y cynlluniau'n cael eu hystyried i fod yn darparu gweithwyr penodedig newydd gyda dealltwriaeth eglur o'r anghenion a risgiau cysylltiedig â'r achos. Roedd hyn yn cael

ei gymhlethu gan ddiffyg cronolegau defnyddiol ac ymrwymiad cyfyngedig i gyfarfodydd cyflwyniadol ar y cyd ar y pwynt trosglwyddo. Er bod staff yn gadarnhaol bod rhai o'r diffygion yn y cynlluniau ysgrifenedig wedi cael eu lleihau trwy sgysiau anffurfiol rhwng gweithwyr gwnaethant hefyd ddisgrifio gorfod 'dadwneud y cynllun' a 'dechrau eto' gyda theuluoedd, er mwyn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn yr oedd ei angen gan gynnwys mewn perthynas â materion diogelu. Mewn rhai achosion roedd hyn yn amlwg wedi arwain at golli symbyliad wrth i deuluoedd ail ymgysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol newydd.

2.25. Sefydlwyd pwyntiau trosglwyddo rhwng y timau ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn fodlon ar y trefniadau. Mynegwyd rhai pryderon am ddiwylliant o borthgadw nad oedd yn cefnogi cysondeb i deuluoedd a chymorth amserol. Roedd y gwaith o drosglwyddo achosion yn cael ei reoli'n bennaf trwy gyfarfodydd trosglwyddo wythnosol ac roedd gwybodaeth yn cael ei darparu ymlaen llaw er mwyn i'r timau a oedd yn derbyn gynllunio a threfnu eu gwaith. Canfu arolygwyr nad oedd rheolwyr bob amser yn defnyddio'r cyfle hwn i gadarnhau bod asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth o ansawdd digonol i ddarparu sail gref ar gyfer gwaith parhaus. Mae'n bwysig bod rheolwyr yn deall y materion ac mae trothwy ar gyfer ymwneud â theuluoedd hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu'n briodol; yn arbennig gan fod cymysgedd sgiliau gweithlu'r awdurdod lleol yn cynnwys staff heb gymhwys. Mewn rhai achosion roedd arolygwyr yn bryderus nad oedd materion diogelu wedi cael sylw digonol.

2.26. Er bod yr holl asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a adolygwyd wedi cael eu cymeradwyo'n briodol, nid oedd y systemau sicrhau ansawdd ar waith yn ddigon cadarn i oruchwylio ansawdd y gwaith yn gyson nac i hyrwyddo'r gwelliant angenrheidiol. Roedd yr awdurdod lleol wedi cydnabod hyn ac roedd wrthi'n datblygu fframwaith sicrhau ansawdd newydd. Mae angen i reolwyr ar draws y gwasanaeth dderbyn cymorth i fod yn fwy hyderus i ddangos i ba raddau maent yn darparu her a chyfarwyddyd effeithiol.

Casgliad:- Diogelu ac Asesu

Roedd y tîm asesu'n gweithio'n galed i roi gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Roedd trafodaethau am strategaeth yn amserol ac yn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth yn briodol gydag asiantaethau allweddol.

Roedd ansawdd yr asesiadau a'r cofnodion a welwyd yn amrywiol; roedd rhai yn dda ond nid oedd eraill yn dangos tystiolaeth ddigonol o'r egwyddor o gyd-gynhyrchu neu ddadansoddiad o angen a risg o'r cychwyn. Nid oedd prydlondeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau bob amser yn amlwg ac roeddent yn dal i ddibynnu'n ormodol ar gydberthnasau proffesiynol unigol.

Nid oedd arferion gwaith cymdeithasol da i ddarganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys yr asesiadau. Er bod y rhan fwyaf o asesiadau'n cael eu rhannu gyda phlant a theuluoedd, roedd diffyg ymgysylltiad effeithiol yn golygu nad oeddent bob amser yn ddigon eglur ynglŷn â diben yr help, gofal a chymorth a/neu'r amddiffyniad yr oeddent yn eu derbyn. Nid oedd y

cynlluniau dilynol bob amser yn adlewyrchu canfyddiadau'r asesiadau ac nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar y plant nac yn cael eu gyrru gan ganlyniadau. Mewn rhai achosion roedd ansawdd y cynllun yn rhwystro'r rhai a oedd yn cymryd achos gan rywun arall rhag deall anghenion a risgiau sy'n gysylltiedig â phlant a theuluoedd yn gyflym. Mae angen rhannu asesiadau a chynlluniau dilynol yn well gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu dealltwriaeth o'r materion ac ymgysylltiad.

Gwelwyd bod rheolwyr yn goruchwylio asesiadau a chynlluniau ond nid oeddent yn darparu'r lefel angenrheidiol o her a sicrwydd ansawdd yn gyson.

Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant gyda'i gilydd yn sefydlu strategaeth effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd da a chanlyniadau ar gyfer pobl. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu a chyflenwi cymorth, gofal a chefnogaeth i bobl. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Darperir gwasanaethau gan weithlu profiadol a medrus sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sy'n gallu adnabod ac ymateb i anghenion mewn modd amserol ac effeithiol.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Roedd trefniadau arwain, rheolaeth a llywodraethiant yn cydymffurfio â chanllawiau statudol.
- Roedd yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i drawsnewid gwasanaethau ar adeg pan oedd rhaid iddynt gyflawni arbedion ariannol tymor canolig. Roedd uchelgais cynlluniau'r awdurdod lleol yn dangos ei ymrwymiad i ddarparu cymorth cynnar a gwasanaethau statudol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Roedd yr awdurdod lleol yng nghamau cynnar ymgorffori Deddf GCLI. Roedd angen mwy o gyfleoedd yn awr i ddysgu o arferion ac ymgysylltu â phartneriaid staff a defnyddwyr gwasanaeth i adolygu'r broses ac unrhyw waith o ail fodlu'r gwasanaeth.
- Mae'r uchelgais i liniaru'r angen am wasanaethau cymdeithasol statudol yn hynod o ddibynol ar allu'r cyfarwyddiaethau i gydweithio er mwyn cyfrannu at, cydgysylltu a chyflawni ystod effeithiol o wasanaethau.
- Mae angen i'r cyngor sicrhau dadansoddiad parhaus o'r cymhlethdodau sylfaenol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant.
- Roedd gwaith wedi dechrau'n ddiweddar i ddatblygu cynllun comisiynu cynhwysfawr, seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â gwasanaethau statudol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar.

- Dylai'r cyngor sicrhau bod y cyfeiriad strategol yn cael ei drosi yn strategaeth weithredol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau plant sy'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol ac yn cael ei deall gan staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.
- Roedd yr egwyddor o leoli gwasanaethau ar y cyd yn cael ei gwerthfawrogi gan staff ar y cyfan ond roedd angen mwy o waith i werthuso profiad y defnyddiwr gwasanaeth.
- Nid oedd llais y plentyn yn amlwg o ran llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.
- Byddai dealltwriaeth aelodau etholedig o'r gwelliant mewn gwasanaeth yn cael ei gryfhau gan adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Mae angen i wybodaeth perfformiad a sicrwydd ansawdd gael ei chasglu a'i dadansoddi'n fwy effeithiol er mwyn deall sut mae'r uchelgais ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gyflawni. Bydd y fframwaith sicrhau ansawdd newydd yn hanfodol i'r ddealltwriaeth hon.
- Mae angen i'r cyngor sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant craidd ar gael i'r holl staff, gan gynnwys rheolwyr a staff asiantaeth.
- Roedd y staff yn gwerthfawrogi goruchwyliaeth ond roedd pa mor aml roedd yn cael ei gyflawni a'r ansawdd yn anghyson ac yn amodol ar bwysau gwaith.
- Hysbysodd gweithwyr newydd gymhwyso eu bod yn cael cefnogaeth dda a'u bod yn gweld y mentora mewnol a ddarperir yn rhywbeth cadarnhaol.
- Roedd staff yn gwerthfawrogi pa mor hawdd mynd atynt oedd eu rheolwyr llinell, a chefnogaeth cymheiriaid gan aelodau'r tîm. Roedd morâl y staff yn amrywio ar draws y gwasanaeth ac roedd materion a godwyd yn cynnwys y capasiti i reoli lefel y galw, cyfyngiadau o ran adnoddau, cymhlethdod rheoli pwysau llwythi gwaith sy'n cystadlu a'r effaith bosibl o ganlyniad i waith ailfodelu arfaethedig.

Esboniad o'r Canfyddiadau

Arweinyddiaeth a Llywodraethiant

3.1. Ar y lefel fwyaf strategol roedd yr awdurdod wedi pennu'r weledigaeth "Un cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau" ac mae'r egwyddor bwysig o 'helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol' yn cael ei hamlinellu yn egwyddorion corfforaethol y cyngor ac yn cael ei hadlewyrchu yn y cynllun corfforaethol a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r cyngor wedi trosi'r flaenoriaeth hon i olygu datblygu dulliau ac arfer 'i ostwng nifer y bobl sy'n dod, neu atal pobl rhag dod, yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar ein gwasanaethau neu arnom ni.' Roedd y flaenoriaeth hon wedi cael ei datblygu'n ddiweddar yn ddatganiad o weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i blant a chynllun gweithredu gyda'r nod o "wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gyda'n gilydd trwy wasanaethau ymatebol ac amserol sy'n eu cefnogi i fyw gyda'i gilydd, gweithio ar anawsterau a bod yn ddiogel". Roedd y gweledigaethau wedi cael eu rhannu ar lefel fwyaf strategol y cyngor a gydag uwch reolwyr ac roeddent wedi eu deall.

Lansiwyd dogfen 'Gweledigaeth ar Waith' mewn digwyddiad ym mis Rhagfyr 2016. Cafwyd anerchiad gan yr Aelod Cabinet yn y sesiwn a mynychwyd y digwyddiad gan 111 o staff yn cynrychioli bob tîm ar draws y gwasanaeth (Pennaeth Gwasanaethau Plant)

3.2. Fel rhan o'r gwaith o ail fodelu rhaglen gwasanaethau plant, roedd yr awdurdod yn gweithio i ddatblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o angen a darpariaeth. Bydd y gwaith helaeth a gynhaliwyd fel rhan o asesiad o anghenion y boblogaeth yn cefnogi'r ddealltwriaeth hon a bydd y wybodaeth hon yn hanfodol i ddatblygu cynllun comisiynu cynhwysfawr mewn perthynas â gwasanaethau statudol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar.

3.3. Mynegodd yr holl reolwyr a staff y cyfwelwyd â nhw ymrwymiad i wella canlyniadau llesiant a diogelwch i blant a theuluoedd. Er eu bod yn llai ymwybodol o'r weledigaeth strategol hon, roedd staff a phartneriaid yn gallu disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i roi gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith, yn arbennig mewn perthynas â Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Fodd bynnag, nid oedd elfennau hanfodol o'r dull cymorth cynnar, gan gynnwys yr angen am gydsyniad gan deuluoedd, yn cael eu deall na'u hymgorffori'n ddigonol. Croesawodd staff y flaenoriaeth a roddwyd i gyflenwi gwasanaeth cyfannol i bobl ond, er gwaethaf rhai digwyddiadau ymgynghori diweddar, roeddent yn teimlo bod angen mwy o gyfle i lunio ac adolygu trefniadau mynediad a gwybodaeth, cyngor a chymorth. Disgrifiodd rhai aelodau o staff 'or-optimistiaeth' afrealistig gan reolwyr a oedd yn credu bod cyd-leoli gwasanaethau ynddo'i hun yn hyrwyddo gweithio ar y cyd mewn ffordd effeithiol.

3.4. Roedd trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol. Roedd yr awdurdod yn ymwybodol o'i gryfderau a meysydd i'w datblygu a'r pwysau o ganlyniad i'w agenda newid uchelgeisiol. Dywedwyd bod creu swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi gwella atebolrwydd ac effeithlonrwydd rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau

plant. Roedd y cyngor yn hyderus bod ei 'weledigaeth un cyngor' yn hyrwyddo gallu'r cyfarwyddwr statudol i lywio'r agenda corfforaethol. Gwelwyd bod y cysylltiadau cryf rhwng y Prif Swyddog Gweithredol; Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ; y bwrdd rheoli corfforaethol ac Aelodau yn darparu cyfleoedd da i rannu a goruchwyllo blaenoriaethau'r cyngor. Rhoddwyd sicrwydd i'r arolygwyr, er enghraifft, gan ymyrraeth a chyfarwyddyd diweddar gan y Prif Weithredwr i fynd i'r afael â'r hyn a ddisgrifiwyd fel trefniadau comisiynu darniog yr oedd staff a phartneriaid yn ystyried eu bod yn gwanhau'r model cymorth cynnar.

3.5. Ar adeg yr arolygiad roedd agenda trawsnewid yr awdurdod ar gyfer gwasanaethau plant yn datblygu ochr yn ochr â'r gofyniad i gyfrannu at arbedion ariannol tymor canolig. Roedd disgwyliadau mawr yn cael eu gosod ar y gwasanaeth yn arbennig o ran pa mor gyflym y byddai ail fodelu'n cyflawni cynaliadwyedd ariannol. Er bod mwy o ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau plant, mae angen dadansoddiad parhaus o'r cymhlethdodau sylfaenol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

3.6. Mae llwyddo i ail fodelu gwasanaethau plant yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithredu effeithiol ac adeiladol o fewn y gyfarwyddiaeth a rhwng asiantaethau. Er bod hyn yn datblygu mewn perthynas â'r gwaith gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth Teulu, nid oedd cyfraniad gwasanaethau eraill y cyngor mor amlwg. Roedd tystiolaeth o rywfaint o gyfathrebu da a gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner ar lefel strategol, fel yr amlygwyd gan eu hymrwymiad i'r bwrdd ail fodelu gwasanaethau plant a gwaith ar y cyd i gyflawni gofynion newydd Deddf GCLI mewn perthynas â'r carchar lleol. Er bod ymrwymiad o'r fath yn ffordd ddefnyddiol o ddatblygu agenda strategol sy'n cael ei rhannu nid oedd wedi cael yr effaith angenrheidiol eto o ran hyrwyddo gwaith partner aml-asiantaeth diogel ac "arfer cydgysylltiedig". Nododd staff yn aml fod cyfathrebu gwael yn achos pryder; fodd bynnag, roedd y Cyfarwyddwr a Phennaeth y Gwasanaethau Plant yn ymroddedig i ymestyn ymgysylltiad staff.

3.7. Canfu'r arolygwyr lefel dda o gefnogaeth wleidyddol i gyfeiriad strategol y cyngor a gwasanaethau plant. Roedd y mecanweithiau cryf ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd, a oedd yn cynnwys cyfleoedd i herio, i hysbysu'r aelodau etholedig yn dda ac yn cadw diogelwch yn flaenoriaeth.

3.8. Byddai'r adroddiadau a ddarperir i aelodau ac i'r adran graffu yn elwa ar ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, gan y byddai hyn yn cefnogi dealltwriaeth fwy cyflawn o lefel y gwelliant a gyflawnwyd. Nid oedd y mecanweithiau a oedd yn galluogi aelodau a swyddogion corfforaethol i glywed barn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r asesiad a chymorth cynnar yn rheolaidd wedi cael eu datblygu'n ddigonol. Mae angen i ymweliadau gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion â staff rheng flaen er mwyn clywed eu barn gael eu trefnu'n well hefyd a bod yn fwy pwrpasol. Dywedodd staff wrth arolygwyr mai ymwybyddiaeth gyfyngedig oedd ganddynt o'r ymweliadau hyn, gan nad oeddent yn gwybod pwy oedd pwy, gan gynnwys y Prif Weithredwr ac aelodau'r uwch dîm rheoli.

3.9. Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gweithio'n galed i hyrwyddo agenda sylweddol o newid sefydliadol a diwylliannol. Cefnogwyd y gwaith hwn gan benodiad Pennaeth Gwasanaethau Plant parhaol yn 2015. Nodwyd bod y rheolwyr hyn wedi cyflwyno cyfarfodydd tîm rheoli rheolaidd, a

oedd yn cael eu hymestyn yn gyson i gynnwys cymorth busnes, gwasanaethau cyfreithiol, rheolwyr cymorth cynnar, y rheolwr cwynion a rheolwyr adnoddau dynol. Nod hyn oedd gwella cydberchnogaeth o drefniadau llywodraethiant.

3.10. Roedd arolygwyr yn cydnabod bod cwmpas cynlluniau'r awdurdod yn dangos ei ymrwymiad i wella gwasanaethau cymorth cynnar a gwasanaethau statudol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gwnaeth yr awdurdod gydnabod yn llawn bod ganddo 'fwy i'w wneud' i drosi'r dyheadau hyn yn fframwaith diogel ar gyfer darparu gwasanaethau plant.

3.11. Cydnabuwyd bod aildrefnu gwasanaethau a chyflawni arbedion ariannol tymor canolig yn golygu bod angen goruchwyliaeth fwy effeithiol a 'gafael' gan reolwyr. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant yn rhoi pwyslais mawr ar wella cadernid diwylliant rheoli gwasanaethau plant, gyda'r nod o gefnogi rheolwyr grŵp a rheolwyr tîm i wneud penderfyniadau gwybodus yn unol â'u cyfrifoldebau. Er bod y nodau hyn yn cael eu croesawu ar y cyfan, nododd staff fod newidiadau mewn cyfrifoldebau rheoli a disgwyliadau uwch reolwyr wedi creu ansicrwydd a'r hyn yr oedd staff yn ei weld fel mwy o fiwrocratiaeth a oedd yn oedi gwneud penderfyniadau allweddol. Mae angen i reolwyr a staff ddeall disgwyliadau'r gwasanaeth yn eglur, deall pwy sy'n atebol am wneud penderfyniadau a bod yn hyderus ym mhrydlondeb yr ymateb. Mae angen i staff a rheolwyr gael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni gofynion uwch reolwyr. Bydd yn cymryd amser i ymgorffori newidiadau i ffyrdd o weithio a oedd yn sefydlog yn flaenorol. Mae'n bwysig bod y newidiadau'n cael eu gwneud mewn ffordd sy'n cefnogi ymgysylltu â staff a phartneriaid yn ystyrlon.

Gwybodaeth am Berfformiad a Sicrhau Ansawdd

3.12. Roedd rheoli perfformiad wedi'i ymgorffori ar draws y gwasanaeth, ac roedd dulliau effeithiol ar waith i gasglu a dosbarthu gwybodaeth. Roedd data yn cael ei drafod yn systematig yn ystod cyfarfodydd rheoli, a chytunwyd ar gamau cydbwysu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau perfformiad. Roedd arolygwyr yn cydnabod y sylw agos a rheolaidd yr oedd uwch swyddogion ac Aelodau yn ei dalu i wybodaeth am berfformiad gwasanaethau plant ac er gwaethaf y newid mewn targedau perfformiad o ganlyniad i roi Deddf GCLI ar waith, roedd yr holl weithwyr y cyfwelwyd â nhw'n ymwybodol o'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan y gwasanaeth. Roedd yn siom bod rhai aelodau o staff o'r farn mai rhywbeth ar gyfer y rheolwyr oedd gwybodaeth am berfformiad, yn hytrach nag yn fodd o wella ansawdd gwasanaethau.

3.13. Cydnabu'r swyddogion a rheolwyr bod angen gwella'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau ansawdd ac roeddent wrthi'n datblygu fframwaith newydd a fyddai'n llywio gwell dadansoddiad o effeithiolrwydd y gwasanaeth. Bydd angen i hyn gael ei ymgorffori fel busnes craidd ar bob lefel ar draws y gwasanaeth. Er mwyn darparu dealltwriaeth go iawn o ansawdd gwasanaethau byddai angen i unrhyw fframwaith gynnwys agwedd aml-asiantaeth tuag at fonitro trothwyon ac adborth gan y bobl sy'n darparu, comisiynu a defnyddio'r gwasanaeth.

3.14. Roedd uned diogelu a sicrhau ansawdd wedi cael ei sefydlu ar draws y gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ac roedd hyn, ynghyd ag adfywiad y gwasanaeth adolygu annibynnol, yn darparu llwyfan defnyddiol ar gyfer monitro a gyrru'r gwaith o wella'r gwasanaeth. Ar y cyfan roedd gan yr awdurdod fwy o waith

i'w wneud i sicrhau diwylliant cyson o ddysgu. Mynegodd y rhan fwyaf o staff a gyfwelwyd gennym farn gadarnhaol am hyfforddiant ffurfiol a gofynnol ond dywedwyd bod y llwyth gwaith yn effeithio ar allu staff i fynd at hyfforddiant. Nid oedd trefniadau cyfundrefnol wedi cael eu datblygu digon ar draws y gwasanaeth i gasglu a lledaenu'r hyn a ddysgwyd yn fwy eang o arferion gwaith cymdeithasol a mecanweithiau adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Nododd arolygwyr fod y gwaith o ddatrys cwynion yn cael ei gydlynu a'i reoli. Er bod canlyniadau cwynion a chanmoliaeth yn cael eu rhannu gyda rheolwyr, gan gynnwys adroddiad blynyddol, mae angen mecanwaith mwy cyson ar gyfer lledaenu pwyntiau a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion er mwyn llywio'r gwaith o wella'r gwasanaeth.

Gweithlu

3.15. Yn ogystal â'r tîm asesu canolog a'r Tîm Plant ag Anabledd, mae gwasanaethau cymdeithasol i blant yn cynnwys pedwar tîm asesu a rheoli gofal arall. Mae'r rhain yn cynnwys tîm 'Just Ask' (rhai sy'n gadael gofal) ac, ers mis Gorffennaf 2015, tair canolfan diogelu. Mae staff yn nhimau'r canolfannau diogelu'n cyflawni'r un swyddogaethau â'r tîm asesu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd ag angen dilys ac sy'n destun cynllun gofal a chymorth. Roedd cyd-leoli gyda'r tîmau cymorth cynnar yn golygu bod dau dîm diogelu'n seiliedig yn yr ardal i hyrwyddo mwy o fynediad gan y cyhoedd a chysylltiadau uniongyrchol o fewn y cymunedau lleol.

3.16. Mae'r awdurdod wedi talu sylw sylweddol i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol ac maent o'r farn bod y maes hwn yn faes sy'n hanfodol i'r busnes. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth recriwtio i swyddi gweithwyr cymdeithasol ond roedd llawer o'r rhain yn weithwyr newydd gymhwyso ac roedd recriwtio gweithwyr profiadol wedi parhau i fod yn heriol. Bydd y gwaith arfaethedig o ailfodelu'r gwasanaeth yn gofyn am weithlu sydd â phrofiad addas os yw am fod yn llwyddiannus o ran lleihau'r galw am wasanaethau statudol a chefnogi canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw yn y gymuned.

3.17. Dywedodd y gweithwyr newydd gymhwyso a gyfwelwyd eu bod yn cael cefnogaeth dda trwy drefniadau fel y rhaglen blwyddyn gyntaf o ymarfer, Rhaglen Gyfuno Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus ac yn arbennig trwy'r mentora a ddarperir yn fewnol. Roedd y rhan fwyaf o staff ledled y gwasanaeth yn gadarnhaol yn gyffredinol am faint o hyfforddiant a oedd ar gael a dywedwyd bod rheolwyr wedi rhoi sylw i ddatblygiad staff. Fodd bynnag, dywedwyd bod y galw ar gapasiti'r gweithwyr wedi effeithio ar eu gallu i fynychu hyfforddiant a oedd wedi'i drefnu. Dangosodd yr holl staff a rheolwyr a gyfwelwyd ymwybyddiaeth dda o'r newidiadau i arfer sy'n ofynnol gan Ddeddf GCLI ac roeddent wedi mynychu a gwerthfawrogi'r hyfforddiant cychwynnol ar gyfer y Ddeddf newydd. Byddai hyfforddiant pellach yn amserol a phriodol yn awr gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o arfer.

Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'r nod o roi'r Ddeddf newydd ar waith. Mae gan adran gwasanaethau cymdeithasol plant Pen-y-bont ar Ogwr gynllun mentora da ar gyfer gweithwyr newydd gymhwys; Rwyf wedi derbyn goruchwyliaeth a mentora rheolaidd ers cael fy nghyflogi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gwasanaethau cymdeithasol i blant yn gweithio'n dda gydag asiantaethau ataliol (arolwg staff).

Mae'n swydd sy'n achosi straen ac mae'n anodd pan fydd problemau staffio, salwch a neu wyliau blynyddol ac er ei fod yn cael ei adnabod fel problem mae disgwyl o hyd i'r holl waith gael ei gyflawni'n brydlon ac mae'n anodd cyflawni hyn heb wneud gwaith ychwanegol yn eich amser eich hun.
(Arolwg staff)

3.18. Roedd yr awdurdod lleol wedi profi anawsterau penodol wrth recriwtio i swyddi uwch-ymarferwyr ac roedd wedi ymateb trwy roi dull llwyddiannus ar waith ar gyfer defnyddio gweithwyr sydd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae angen rhaglen hyfforddi a sefydlu addas i gyd-fynd â'r dull hwn er mwyn cefnogi staff sy'n symud i swyddi rheolwyr.

3.19. Roedd dyrchafiad diweddar gweithwyr cymdeithasol profiadol i swyddi newydd fel uwch-ymarferwyr, cyflogi staff llai profiadol yn aml yn eu lle (llawer ohonynt yn dechrau ar yr un pryd) a phresenoldeb gweithwyr profiadol ond heb fod yn gymwys yn strwythur y gwasanaeth yn golygu bod yr awdurdod yn rheoli gwendidau sylweddol o fewn y gweithlu. Disgrifiwyd y problemau hyn, yn ogystal â rhywfaint o absenoldeb oherwydd salwch, gan staff ac roedd arolygwyr yn ystyried eu bod yn effeithio ar allu timau i ddyrannu achosion cymhleth yn rheolaidd i ymarferwyr a oedd yn addas o brofiadol a chymwys.

3.20. Roedd yn gadarnhaol bod yr angen i gryfhau rhai timau wedi cael ei gydnabod a bod yr awdurdod lleol yn defnyddio nifer fechan o staff asiantaeth profiadol i reoli swyddi gwag ac absenoldebau. Roedd yn siomedig nad oedd dull cyson o ran ymsefydlu er mwyn sicrhau eu bod yn deall polisi a gweithdrefnau Pen-y-bont ar Ogwr.

3.21. Er gwaethaf creu dirprwy reolwyr tîm yn y canolfannau diogelu (nid y tîm asesu) nodwyd bod capasiti rheolwyr tîm i ddarparu'r lefel angenrheidiol o gymorth a goruchwyliaeth dan bwysau ar draws y gwasanaeth. Roedd uwch reolwyr wrthi'n ceisio datblygu ac adeiladu cadernid eu gweithlu gan gynnwys eu grŵp staff rheoli ond roeddent yn cydnabod yr anhawster wrth gydbwysu'r uchelgais hwn gyda rheoli pwysau ar gapasiti. Mae capasiti rheolwyr hefyd wedi cynyddu yn dilyn penodi prif swyddog newydd a fydd yn rheolwr llinell nid yn unig ar gyfer y ganolfan diogelu aml-asiantaeth ond hefyd ar gyfer perfformiad.

3.22. Dywedodd staff wrth arolygwyr, er eu bod yn credu bod manteision posibl i ffurfwedd newydd y gwasanaethau, nad oedd y rhain wedi cael eu gwireddu'n llawn eto. Gwelwyd bod lleoliad daearyddol rhai timau yn gadarnhaol ar gyfer adeiladu cysylltiadau cymunedol ond nid ar gyfer cydlyniant y gwasanaeth. Clywodd arolygwyr 'nad oedd [staff gwaith cymdeithasol] yn adnabod ei gilydd' ac roeddent yn bryderus bod timau gwaith cymdeithasol yn datblygu cysyniad negyddol o'i gilydd nad oedd o gymorth y mae angen rhoi sylw iddo. Mae angen mwy o waith i gefnogi aliniad strategol a gweithredol ac i sicrhau bod gan dimau synnwyr clir o hunaniaeth a gwerth a rennir o fewn y gwasanaeth.

3.23. Roedd y morâl ymysg y gweithwyr yn amrywiol. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a fynegwyd, yn arbennig yn yr arolwg staff, ynghylch maint y gwaith, cadw staff, a'r newidiadau yn y gwasanaeth.

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr y staff mwyaf anhygoel sy'n ffyddlon, yn gweithio'n galed ac yn ymdrechu'n galed yn yr amgylchiadau anoddaf i ddarparu gwasanaeth da i'r plant a'r teuluoedd maent yn gweithio gyda nhw. O fewn fy nhîm fy hun mae pawb yn cefnogi ei gilydd ac maent yn poeni am ei gilydd go iawn.

Mae staff newydd gymhwyso yn cymryd lle staff profiadol iawn ac mae hyn yn cael effaith ar y gwasanaeth.

Mae adnoddau i blant a gofalwyr yn lleihau bob dydd, ac nid oes opsiynau newydd ar gael i gymryd eu lle.

(Arolwg gweithwyr cymdeithasol a staff)

3.24. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gyfwelwyd fod eu baich gwaith dan bwysau cynyddol o ran maint a chymhlethdod. Er bod y rhan fwyaf o staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu rheolwr tîm gwnaethant leisio pryder nad oedd gofynion eu baich gwaith bob amser yn amlwg i uwch reolwyr neu'n cael eu cydnabod yn ddigonol ganddynt. Dywedwyd bod y gofynion a grëwyd gan ffiniau gwahanol dimau hefyd yn cael effaith annheg ar faich gwaith staff.

3.25. Mynegodd staff rwystredigaeth sylweddol bod cyfathrebu'n wael ar draws y gwasanaeth ac nad oeddent yn gwybod faint o sylw roedd uwch reolwyr yn ei roi i'r heriau cydnabyddedig a oedd yn effeithio ar gapasiti'r tîm. Er enghraifft, roedd y twf o ran galw am gyswllt dan oruchwyliaeth yn golygu, er bod gweithwyr cyswllt ar y tîm, bod amser gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn cael ei dreulio'n gynyddol ar ddod o hyd i leoliadau a threfnu goruchwylwyr ar gyfer cyswllt. Ar adeg yr arolygiad roedd rhaid i weithwyr cymdeithasol ymgymryd â chyfrifoldebau cludiant i blant o fewn y gwasanaeth hefyd oherwydd problem gyda chytundeb y cynllun gyrrwr gwirfoddol.

3.26. Mynegodd y rheolwyr a'r staff bryderon bod y galw cynyddol ar amser rheolwyr ac ar weithwyr profiadol yn cael effaith gynyddol ar gadernid y gwasanaeth. Roedd staff y arbennig o bryderus nad oedd plant sy'n derbyn gofal a oedd yn rhan o'u hachosion yn derbyn digon o amser er gwaethaf y ffaith bod sefydlogrwydd yn flaenoriaeth gan y cyngor. Nododd staff bod cyfyngiadau amser yn lleihau eu gallu i wneud gwaith ystyrlon yn uniongyrchol gyda phlant ac er eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau cymorth a oedd ar gael roeddent yn teimlo'n gynyddol fel cydgysylltwyr achosion yn hytrach na gweithredwyr newid. Yn yr un modd mae angen cefnogi gweithwyr cymdeithasol i gydnabod arwyddocâd eu gwaith eu hunain fel gwasanaeth ataliol ynddo'i hun.

3.27. Roedd profiad staff o oruchwyliaeth yn amrywio ar draws y gwasanaeth. Roedd rheolwyr tîm yn goruchwyllo gweithwyr cymdeithasol yn rheolaidd; roedd dirprwy reolwyr tîm yn goruchwyllo rhai cynorthwyyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr cyswllt. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym er bod y rhan fwyaf yn cael eu

goruchwylio'n rheolaidd, ychydig ohonynt oedd yn credu ei fod yn fyfyrion. Dywedwyd bod yr oruchwyliaeth a dderbyniwyd gan y rheolwyr tîm, dirprwy reolwyr tîm a'r uwchymarferwyr yn anghyson ar draws y gwasanaeth a dywedwyd ei bod yn aml yn wan oherwydd gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Canfu arolygwyr fod cofnodion goruchwylio o ansawdd gwael ac yn canolbwyntio ar drafodaeth achos yn seiliedig ar dasg. Roedd y polisi goruchwylio wedi cael ei adnewyddu a'i lansio trwy sesiynau briffio a gweithdai sgiliau ym mis Ebrill 2016 gyda'r nod o gefnogi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ond nid oedd hwn wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol hyd yn hyn. Roedd yr awdurdod yn gweithio gyda rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau ac roedd yn cydnabod bod angen hyfforddiant wedi ei dargedu ar gyfer y fframwaith goruchwylio newydd. Mae angen mwy o waith i sicrhau bod gweithwyr yn derbyn cyfleoedd dysgu myfyrion o ansawdd da trwy oruchwyliaeth gan fod hyn yn cefnogi arfer ond mae hefyd yn hanfodol er mwyn cadw staff cymwys a hyderus.

Casgliad:- Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant

Roedd yr awdurdod yn gweithio'n galed i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant ar adeg pan oedd rhaid iddynt gyflawni arbedion ariannol tymor canolig. Roedd uchelgais cynlluniau'r awdurdod yn dangos ei ymrwymiad i ddarparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau statudol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Fodd bynnag, roedd yr amcan i liniaru'r angen am wasanaethau cymdeithasol statudol yn hynod o ddibynnol ar allu holl gyfarwyddiaethau'r cyngor i gydweithio er mwyn cyflawni mewn perthynas â gweledigaeth y cyngor a chyfrannu a chydgyssylltu ystod effeithiol o wasanaethau. Bydd angen i'r cyngor sicrhau dadansoddiad parhaus o'r cymhlethdodau sylfaenol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant statudol. Roedd yn gadarnhaol bod y cyngor wedi dechrau gweithio'n ddiweddar i ddatblygu cynllun comisiynu mwy cynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn allweddol ar gyfer cyflawni ei strategaeth cymorth cynnar a sefydlogrwydd.

Dylai'r cyngor sicrhau bod y cyfeiriad strategol yn cael ei drosi yn strategaeth weithredol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau plant sy'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol ac yn cael ei deall gan staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth. Ar adeg yr arolygiad roedd Deddf GCLI yn dal yn y cyfnod cynnar o gael ei rhoi ar waith ac roedd angen mwy o gyfleoedd i ddysgu gwersi o arfer a rhanddeiliaid allweddol yr ymgysylltwyd â nhw wrth adolygu cynnydd ac mewn unrhyw waith dilynol i ail fodelu'r gwasanaeth. Mae angen i leisiau plant a theuluoedd gael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau er mwyn deall yn well y gwahaniaeth mae help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn ei wneud i blant a theuluoedd. Bydd cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd newydd yn helpu'r cynghorau i ddeall pa mor gyflym maent yn gwella eu gwasanaethau.

Roedd y staff yn ymroddedig i gyflawni canlyniadau da i blant a theuluoedd ond roedd morâl y staff yn amrywio ar draws y gwasanaeth ac roedd angen ei feithrin ar adeg o newid sylweddol. Roedd y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol wedi cael cryn flaenoriaeth ond er gwaethaf rhywfaint o gynnydd da roedd yr awdurdod lleol wedi cael trafferth i recriwtio staff profiadol. Felly nid oedd gwasanaethau bob amser yn cael eu cyflenwi gan weithlu a oedd yn addas o gymwys a phrofiadol ac a oedd yn meddu ar y capasiti i fodloni gofynion y baich achosion yn gyson. Roedd y staff yn gwerthfawrogi bod eu rheolwyr llinell yn hawdd

mynd atynt ac yn gwerthfawrogi cymorth cymheiriaid gan aelodau'r tîm yn arbennig mewn perthynas â rheoli'r cynnydd ym maint a chymhlethdod eu gwaith. Byddai staff yn croesawu pe bai uwch reolwyr yn fwy amlwg yn arbennig o ystyried bod y gwasanaethau wedi cael eu hail fodelu.

Roedd pwysigrwydd datblygu staff ac arferion goruchwylio da o ran cadw staff yn cael ei gydnabod a chanfuwyd bod gweithwyr newydd gymhwyso'n cael cefnogaeth dda yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ymarfer a'u bod yn gwerthfawrogi'r mentora a ddarperir ar eu cyfer yn fawr iawn. Er gwaethaf y ffaith bod rhai rhaglenni hyfforddiant da ar gael, roedd angen help ar staff a rheolwyr i flaenoriaethu mewn perthynas â gofynion sy'n cystadlu yn eu gwaith. Canfuwyd bod ansawdd yr oruchwyliaeth yn amrywiol iawn ac nid oedd yn dangos digon o her neu fyfyrion yn gyson. Nid oedd polisi goruchwylio newydd wedi cael effaith ar y materion ansawdd hyn hyd yma. Roedd uwch reolwyr yn gweithio i ddatblygu goruchwyliaeth gadarnach o arfer a diwylliant rheoli, felly roedd datblygu arweinyddiaeth rheolwyr grŵp a rheolwyr rheng flaen yn cael ei symud ymlaen fel blaenoriaeth.

Methodoleg

Gwaith cyn y gwaith maes

Cwblhaodd yr awdurdod lleol hunanasesiad a darparwyd dogfennau a gwybodaeth perfformiad i AGGCC mewn perthynas â phwyslais yr arolygiad. Adolygwyd y wybodaeth a ddarparwyd ac fe'i defnyddiwyd i lunio manylion y meysydd i'w harchwilio yn ystod yr arolygiad.

Gwaith maes

Roedd y tîm arolygu ar y safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr am wyth diwrnod yn ystod mis Ionawr a Chwefror 2017.

Adolygu achosion: ystyriodd arolygwyr 60 o achosion a gafodd eu dethol ar hap ac archwiliwyd 21 o'r rhain yn fanylach gyda gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr, gweithwyr proffesiynol eraill cysylltiedig, a phlant a theuluoedd. Gwnaethom gynnal 21 cyfweiliad gyda gweithwyr achos dynodedig a rheolwyr tîm yn ogystal â deg cyfweiliad gyda phlant, teuluoedd a/neu ofalwyr.

Cyfweiliadau a Grwpiau Ffocws: cynhaliodd arolygwyr dros 24 o gyfweiliadau grŵp neu unigol gydag uwch reolwyr, staff, aelodau etholedig a phartneriaid.

Arolwg staff: cyflwynwyd arolwg SNAP ar-lein i staff yn gweithio yn yr adran gwasanaethau plant; dychwelwyd 115 ohonynt.

Arsylwi ar arfer: cynhaliodd arolygwyr ddau arsylwad ar arfer

Adolygiad o gwynion a chanmoliaeth: adolygwyd deg ohonynt

Adolygu dogfennau goruchwylio ac arfarniadau: adolygwyd deg ohonynt

Gellir gweld manylion pellach ynghylch y fframwaith ar gyfer arolygu, ymgysylltu ac adolygu perfformiad awdurdodau lleol yma:

<http://cssiw.org.uk/providingacareservice/our-inspections/how-we-inspect-local-authorities/?skip=1&lang=cy>

Y Tîm Arolygu

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys

Katy Young

Pam Clutton

Ann Rowling

Norman Host

Rhonwyn Dobbing

Diolchiadau

Hoffai AGGCC ddiolch i'r bobl a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant, teuluoedd a gofalwyr, staff a rheolwyr Pen-y-bont ar Ogwr; y darparwyr gwasanaeth a sefydliadau partner, gan gynnwys staff y trydydd sector am eu hamser, eu cydweithrediad a'u cyfraniad at yr arolygiad hwn.